

ISSN 2053-5163

Rhifyn 13

Haf 2018

# Herio Materion Crefyddol

David Wilkinson  
ar Anffyddiaeth Newydd

Abdullah Sahin  
ar Islam a Democratiaeth:  
A ydyn nhw'n cydweddu  
neu'n anghymharus?  
(Rhan 2)

Jeff Astley  
ar Rhai Damcaniaethau  
Anwybyddol ynghylch  
Moesoldeb

Daniel Moulin-Stożek  
ar Profiad Crefyddol  
trwy Gelf

# Herio Materion Crefyddol

## Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

Rhifyn 13 Haf 2018

### Cynnwys

Anffyddiaeth Newydd David Wilkinson	2
Islam a Democratiaeth: A Ydyn Nhw'n Cydweddu Neu'n Anghymharus? Rhan 2: Dadleuon o Blaid ac yn Erbyn Abdullah Sahin	8
Rhai Damcaniaethau Anwybyddol ynghylch Moesoldeb Jeff Astley	18
Profiad Crefyddol trwy Gelf Daniel Moulin-Stożek	26

### Golygydd

Yr Athro Jeff Astley (Prifysgol Warwick)

### Golygydd Rheolaethol

Dr Tania ap Siôn (Prifysgol Warwick, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

### Ymgynhorwyr Golygyddol

Yr Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)

Dr Ian Jones (St Peter's Saltley Trust)

Libby Jones (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Professor William K. Kay (Prifysgol Caer)

Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Warwick)

Phil Lord (Arweinydd System, GwE)

Yr Athro Peter Neil (Prifysgol Bishop Grosseteste)

Yr Athro Stephen Parker (Prifysgol Worcester)

Y Gwir Barchedig Ddr David Walker (Prifysgol Warwick)

### Dyluniwyd gan Phillip Vernon

### Cyfieithiad gan Nant Roberts

#### *Herio Materion Crefyddol*

Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

Llys Onnen

Abergwyngregyn

Gwynedd

LL33 0LD

Ffôn: 01248 680131

E-bost: [t.ap-sion@warwick.ac.uk](mailto:t.ap-sion@warwick.ac.uk)

Gwefan: [www.st-marys-centre.org.uk](http://www.st-marys-centre.org.uk)

St Peter's Saltley Trust

Grays Court

3 Nursery Raod

Edgbaston

Birmingham B15 3JX

Telephone 0121 427 6800

E- mail: [director@saltleytrust.org.uk](mailto:director@saltleytrust.org.uk)

Website: [www.saltleytrust.org.uk](http://www.saltleytrust.org.uk)

Cyfnodolyn ar-lein mynediad agored am ddim yw *Herio Materion Crefyddol*, a luniwyd i gefnogi athrawon a myfyrwyr sy'n ymwneud ag Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch. Bwriad *Herio Materion Crefyddol* yw dod ag ysgolheictod ac ymchwil ddiweddar a pherthnasol o'r Brifysgol i'r ystafell ddosbarth Uwch. Cyhoeddir tri rhifyn bob blwyddyn, ac mae pob rhifyn yn cynnwys pedair erthygl wreiddio.

Noddir y cyfieithiad gan Mudiad Addysg Grefyddol Cymru (MAGC).

## Anffyddiaeth Newydd

David Wilkinson

*Yn yr erthygl hon, trafodir prif gynigwyr a dadleuon anffyddiaeth newydd gan gyfeirio at eu cryfderau a'u gwendidau penodol ac at ffurfiau cynharach o anffyddiaeth.*

*Cyswllt manyleb:*

*WJEC/CBAC Uned 5 Athroniaeth Crefydd: Thema 1: Heriau i gred grefyddol (rhan 2), C: Materion yn ymwneud â gwrthod crefydd – Anffyddiaeth (=EDUQAS Eifen 2: Thema 2, F).*

*EDEXCEL Papur 1: Athroniaeth Crefydd, Testun 2.5 ... mathau o anffyddiaeth; a Papur 4, Dewis 4B: Cristnogaeth; Testun 4.2 Seciwlarioli (2).*

*OCR Datblygiadau mewn meddwl Cristnogol, 6. Heriau: Her Seciwlariaeth.*

*AQA Eifen 2: Astudiaeth o grefydd a deialogau; 2B Adran A: Cristnogaeth; Cristnogaeth a her seciwlariaeth.*

### Cyflwyniad

Ar fore dydd Mawrth, Medi 11, 2001 cynhaliwyd cyfres o bedwar ymosodiad terfysgol cydlynol gan y grŵp terfysgol Islamaidd al-Qaeda yn yr Unol Daleithiau, gan ladd bron i 3000 o bobl a dinistrio Twin Towers y World Trade Centre yn Efrog Newydd.

Arweiniodd y digwyddiad hwn at ddaeargryn gwleidyddol a rhyfel dadleuol a thrasig gydag Irac. Ond byddai '9/11' yn arwain hefyd at symudiad deallusol newydd ymhlith nifer o bobl a oedd yn poeni ynghylch grym a niwed posibl crefydd ffwndamentalaid.

'Anffyddiaeth newydd - *New Atheism*' oedd y mudiad a unodd nifer o feddylwyr anffyddiaidd mewn cyfeillgarwch clos a chyda a nod a rennid: gwrthwynebu

dylanwad crefydd yn y byd cyfoes. Roedd prif arweinwyr y mudiad, hyd at yr adeg honno, i gyd wedi bod yn hynod feirniadol o grefydd, ond erbyn hyn roedd Richard Dawkins, Christopher Hitchens, Sam Harris a Daniel Dennett yn cael eu galw gan eu beirniaid yn '*The Four Horsemen of the Apocalypse*' oherwydd y ffordd gydunol y gwnaethon nhw ymosod ar greddoau ac arferion crefyddol traddodiadol. Gan ddechrau gyda chyhoeddiad Sam Harris, yn 2004, *The End of Faith*, hyrwyddwyd anffyddiaeth newydd trwy frig-lyfrau, y cyfryngau darlledu a'r cyfryngau cymdeithasol (Dawkins 2006; Dennett 2006; Harris, 2004, 2006; Hitchens, 2007).

## Anffyddiaeth Newydd

### Pwy yw'r anffyddwyr newydd?

Mae PhD mewn niwrowyddoniaeth gan Sam Harris (g. 1967) ac ef oedd y cyntaf i gyflawni llwyddiant cyhoeddi poblogaidd. Mae'n ymosod nid yn unig ar grefydd 'eithafol' ond hefyd ar grefydd 'gymedrol', y mae'n credu sydd yr un mor beryglus oherwydd ei bod yn cyfrannu at broblemau'r byd trwy oddef ac addysgu pethau sy'n ffug. Felly, ochr yn ochr â ffundamentaliaid Cristnogol a Mwslimaidd, mae hefyd yn ymosod ar Babyddiaeth a Phrotestaniaeth prif linell. Mae ei iaith ar adegau'n eithafol: '*Some propositions are so dangerous that it may even be ethical to kill people for believing them*' (Harris, 2004, t. 52). Roedd ei lyfrau yn gyson uchel ar restr gwerthiant gorau'r New York Times.

Athro athroniaeth yw Daniel Dennett (g.1942) sydd â diddordeb yn natur y meddwl, ymennydd ac ymwybyddiaeth, yn ogystal â natur esblygiad biolegol. Mae wedi dadlau mai dim ond sgil-gynnyrch o esblygiad yw crefydd.

Bu Richard Dawkins (g.1941) yn gweithio am nifer o flynyddoedd ym myd sŵoleg ac mae'n uchel ei barch fel un a boblogeiddiodd wyddoniaeth, yn enwedig ym maes esblygiad. Pan gafodd ei benodi'n Athro (Charles) Simonyi ym Mhrifysgol Rhydychen ar gyfer Dealltwriaeth Gyhoeddus o Wyddoniaeth, enillodd y rhyddid i ganiatáu i'w fuddiannau deallusol ehangu, yn enwedig wrth weld gwyddoniaeth mewn gwrthdrawiad â chrefydd. Cyfraniad arloesol Dawkins i Anffyddiaeth Newydd yw ei gyfrol *The God Delusion* (2006), a gyrhaeddodd rif pedwar yn rhestr llyfrau gwerthiant gorau y New York Times, rhif un ar Amazon.co.uk, rhif dau ar Amazon.com, ac mae wedi ei gyfieithu i ddeg ar hugain o ieithoedd. Fe werthodd dros 2 filiwn o gopïau ledled y byd.

Mewn gwrthgyferbyniad, nid academydd oedd Christopher Hitchens (1949-2011) ond newyddiadurwr profiadol, ysgrifennwr cynhyrchiol a dadleuwr brwd. Mae ei lyfr *god is not Great*, a oedd hefyd yn frig-lyfr byd-eang, yn fileinig yn ei ddadleuon yn erbyn crefydd, gan honni bod arwyr crefyddol fel Sant Francis o Assisi, Gandhi, y Fam Teresa a'r Dalai Lama yn dwyllodrus, yn hurt, neu ar eu gorau'n cael eu rhwystro gan eu ffydd mewn unrhyw ddaioni a wnaethant neu a wnânt.

Wrth gwrs, mae yna lawer o bobl eraill a rannodd sail a dadleuon deallusol anffyddiaeth newydd. O Peter Atkins, cemegydd o Rydychen, i ddigrifwyr fel Stephen Fry, Ricky Gervais a Tim Minchin, roedd gan anffyddiaeth newydd ddylanwad eang. Fe ddaeth hyd yn oed y ffisegydd Yr Athro Stephen Hawking yn fwy di-flewyn-ar-dafod ynghylch ei gredoau anffyddiaidd yn ei gyfrol *The Grand Design* a gyhoeddwyd yn 2010.

Er y byddai'n deg dweud bod poblogrwydd Anffyddiaeth Newydd wedi cyrraedd ei uchafbwynt 10 mlynedd yn ôl, yn sicr o ran ei lwyddiant cyhoeddi, mae crychdonnau ei ddadl yn parhau i symud trwy ddiwylliant y Gorllewin.

### Beth yw themâu canolog anffyddiaeth newydd?

Mae'n anodd deall anffyddiaeth newydd fel *un* sefyllfa athronyddol. Mae'n well meddwl amdani fel sefyllfa eang sy'n cynnwys rhai themâu cyffredin a rennir ac a hybir gan grŵp o ffrindiau sy'n rhannu consyrn cyffredin. Ni chaiff y themâu hyn eu cynnal gyda grym cyfartal gan yr holl anffyddwyr newydd, ond fe'u gwelwch nhw yn eu hysgrifiadau neu yn eu cyfweiliadau. Fe ddefnyddiaf gyfrol Dawkins, *The God Delusion*, i arddangos y rhain.

## Anffyddiaeth Newydd

### 1. *Fe ddylech chi fod yn falch o fod yn anffyddiwr*

Ysgrifennodd Dawkins *The God Delusion* er mwyn rhoi hyder i'r cyd-anffyddwyr ddod i'r amlwg. Mae'n teimlo bod gan grefydd gymaint o rym yn y byd a lle breintiedi mewn cymdeithas, fel y gall y rhai sy'n anffyddwyr deimlo eu bod yn cael eu bygwth ac yn cael gwahaniaethu yn erbyn. Mae anffyddiaeth newydd yn rhoi'r adnoddau deallusol a'r arweinyddiaeth i wneud lle ar gyfer anffyddiaeth yn y byd cyfoes.

Yn ei gyfrol *God and the New Atheism*, mae John Haught yn amlygu gwahaniaethau pwysig rhwng yr Anffyddwyr Newydd a'r athronwyr anffydddaidd dirfodol fel Albert Camus, Jean-Paul Sartre, Friedrich Nietzsche ac, i ryw raddau, Bertrand Russell (Haught, 2008). Tra bod anffyddwyr newydd yn dathlu anffyddiaeth a *gwrth-dduwiaeth* fel rhywbeth rhyddhaol, mae Camus, Sartre a Nietzsche yn bryderus iawn o'r hyn y maent yn ei weld fel y gost nihilyddol wrth wrthod bodolaeth Duw. Er enghraifft, roedd Sartre yn alarus wrth ddweud fel hyn: *'Indeed everything is permissible if God does not exist and as a result man is forlorn because neither within him or without does he find anything to cling to'* (yn Marino, 2004, t. 349).

Mewn cyferbyniad, nododd Dawkins, *'You can be an atheist who is happy, balanced, moral, and intellectually fulfilled'* (Dawkins, 2006, t. 23).

### 2. *Mae gwyddoniaeth yn gwrthdaro â chrefydd*

Yn achos yr anffyddwyr newydd, mae gwyddoniaeth yn dod yn ffordd bwysig o ymosod ar grefydd. Maen nhw'n ofni'r twf mewn creadaeth a dyluniad deallus chwe-diwrnod, gan weld hyn yn fygythiad i addysgu gwyddoniaeth mewn ysgolion a'n dealltwriaeth o'r byd yn gyffredinol.

Ond yn fwy na hynny, maen nhw'n dadlau bod gwyddoniaeth yn diystyru'r *posibilrwydd* o gred crefyddol. Mae hyn yn seiliedig ar:

- eu cred yn y 'model gwrthdaro' mewn hanes, sy'n cynnwys digwyddiadau sy'n ymwneud â Galileo neu Darwin fel brwydrau rhwng gwyddoniaeth a'r Beibl.
- rhannu gyda chenedlaethau hŷn o anffyddwyr, athroniaeth bositifistaidd Auguste Comte a'i 'Bositifiaeth Resymegol' (*Logical Positivism*), sy'n gweld dim ond gwyddoniaeth fel yr unig ffynhonnell ddibynadwy ar gyfer gwir wybodaeth. Felly, nid oes unrhyw derfynau o ddamcaniaeth wyddonol nac, i'w roi mewn ffordd arall, nid oes datganiadau ystyrlon sydd y tu allan i wyddoniaeth.

Mae'r model gwrthdaro hwn o ddeall perthynas gwyddoniaeth a chrefydd wedi cael ei anwybyddu'n eang gan haneswyr gwyddoniaeth (Harrison, 2015; gweler hefyd Shapin, 1996, t. 195; Brooke, 1991, t. 42); ac mae'r rhan fwyaf o athronwyr wedi hen wrthod Positifiaeth Resymegol.

### 3. *Allwch chi ddim profi bodolaeth Duw*

Mae Dawkins yn rhoi beirniadaeth safonol o'r tair dadl athronyddol draddodiadol (cosmolegol, dyluniadol ac ontolegol) ar gyfer bodolaeth Duw. Yma, nid oes dim y tu hwnt i'r hyn a ddywedwyd gan athronwyr o'r ddeunawfed ganrif fel David Hume ac Immanuel Kant.

Yn hyn o beth, mae Dawkins yn anwybyddu un o egwyddorion canolog y crefyddau Abrahamiaidd (Iddewiaeth, Cristnogaeth ac Islam), sy'n credu na allwch chi profi bodolaeth neu natur Duw, ond bod Duw yn cael ei adnabod trwy ei

## Anffyddiaeth Newydd

hunan-ddatguddiad, yn enwedig mewn gweithredoedd o hanes neu mewn ysgrythurau. Er bod rhai Cristnogion wedi defnyddio'r tystiolaethau traddodiadol ar gyfer bodolaeth Duw, mae'r rhan fwyaf yn credu bod Duw yn bodoli ac mai ei natur yw cariad oherwydd tystiolaeth Iesu o Nasareth, yr hwn y maent yn credu mai Duw ei hun doedd yn dod yn ddynol.

### **4. Mae ffydd Gristnogol yn afresymol**

Mewn darn sydd bellach yn enwog, mae Dawkins yn ysgrifennu,

The God of the Old Testament is arguably the most unpleasant character in all fiction: jealous and proud of it; a petty, unjust, unforgiving control-freak; a vindictive, bloodthirsty ethnic cleanser; a misogynistic, homophobic, racist, infanticidal, genocidal, filicidal, pestilential, megalomaniacal, sadomasochistic, capriciously malevolent bully. (Dawkins, 2006, t. 31)

Mae'n dadlau sut mae hyn yn anghyson â hawliad bod y Testament Newydd yn dangos Duw cariad. Mae'r maen prawf hwn yn parhau traddodiad cynharach o anffyddiaeth a amlygwyd gan feirniadaethau Thomas Paine o foesoldeb Beiblaidd.

Mewn beirniadaeth ddyfnach o lawer, mae Dawkins yn dadlau nad yw diwinyddiaeth Gristnogol yn bwnc academaidd go iawn o gwbl, ac na ddylid caniatáu'r pwnc mewn prifysgol:

What has 'theology' ever said that is of the smallest use to anybody? When has 'theology' ever said anything that is demonstrably true and is not obvious? (Dawkins, 1993)

Defnyddiodd Dawkins y ddadl hon i wrthwynebu penodiad yr athronydd Keith Ward, a ymunodd ag ef ym Mhrifysgol Rhydychen yng Nghadair Athro Diwinyddiaeth. Mewn cyfnewidiadau cadarn, dadleuodd Ward fod anffyddiaeth newydd yn ymddangos fel bod ganddi adwaith emosiynol dwfn i'r syniad o bwrpas moesol ac ysbrydol ar gyfer bywyd dynol, sydd wedi'i gwreiddio mewn safbwynt ar grefydd fel peth anthropomorffig, llythrenolaidd ac sy'n gwadu-bywyd, gwadu-llawenydd a gwadu-rhyddid. Ond nodweddu pob crefydd yn y ffordd hon yw methu â gwneud gwahaniaethiadau pwysig rhwng gwahanol fathau o gred yn Nuw (Ward, 2008).

### **5. Cynnyrch esblygiad yw crefydd**

I esbonio bodolaeth crefydd, mae anffyddwyr newydd fel Dawkins a Dennett yn galw am esboniad gwyddonol. Gan ddefnyddio offer bioleg esblygiadol a seicoleg esblygiadol, maen nhw'n awgrymu damcaniaethau posibl ynghylch tarddiad crefydd ac esblygiad dilynol crefyddau modern o greddau gwerin hynafol. Y darlun sy'n dod i'r amlwg yw, wrth i ni ddysgu ein bod ni'n byw mewn byd o feddyliau eraill, fe wnaethom ymestyn y mewnwleidiad hwn i briodoli cyfrwng unrhyw bethau sy'n ein drysu neu'n peri ofn i ni. Arweiniodd hyn at ein duwiau rhagydybiedig a oedd yn syml yn asiantau oedd â mynediad at yr holl wybodaeth strategol a oedd yn ddiffygiol gennym. Allan o hyn daeth arweinwyr a defodau crefyddol i roi mynediad at wybodaeth o'r fath i ni.

Felly, nid ymateb i realiti y dwyfol yw crefydd; mae'n gynnyrch angen dynol i ymdopi'n well â'r byd naturiol. Yma eto, er y gallai iaith anffyddiaeth newydd fod

## Anffyddiaeth Newydd

yn wahanol iawn o ran geneteg, nid yw hergwd y ddadl yn rhy bell oddi wrth safbwynt Ludwig Feuerbach, a ddadleuodd bod sylwedd a gwrthrych crefydd yn gwbl ddynol; rydym wedi dangos bod doethineb dwyfol yn ddoethineb dynol; mai anthropoleg yw cyfrinach diwinyddiaeth; ac mai meddwl absoliwt yn hyn a elwir yn feddwl goddrychol meidrol - '*The substance and object of religion is altogether human; we have shown that divine wisdom is human wisdom; that the secret of theology is anthropology; and that the absolute mind is the so-called finite subjective mind*' (Feuerbach, 2008 [1841], t. 270).

### 6. Mae crefydd yn gwenwyno dynoliaeth

Tra bod anffyddiaeth newydd yn iawn yn beirniadu gweithredoedd annynol sy'n gysylltiedig â chrefydd ac sydd weithiau'n

cael eu goddef gan grefydd, gan gynnwys cam-drin rhyw, homoffobia ac anghyfiawnder rhywedd, mae'n mynd dipyn ymhellach i hawlio bod unon bresenoldeb a dyfalbarhad crefydd mewn cymdeithas yn niweidiol i iechyd y gymdeithas honno. Felly mae 'cam-drin plant' yng ngolwg Dawkins yn cynnwys addysgu plant am Gristnogaeth.

Efallai mai un o'r prif wahaniaethau rhwng anffyddiaeth newydd ac anffyddiaeth hŷn yw ymdeimlad o ddieter tuag at grefydd, a'r difrod y mae'n ei achosi yn y byd.

## Cysylltau

<https://www.youtube.com/watch?v=P5ZOwNK6n9U> (Ricky Gervais and Stephen Colbert)

<https://www.youtube.com/watch?v=A4RxzzxYan4> (Andrew Brown and Dan Dennett)

<https://www.youtube.com/watch?v=FJO4aYoaleg> (Tim Keller)

<https://www.youtube.com/watch?v=-ga4JvEMiXw> (Sam Harris)

<https://www.youtube.com/watch?v=MQox1hQrABQ> (Chris Hitchens)

<http://www.wired.com/wired/archive/14.11/atheism.html> (Gary Wolf,

'The Church of the Non-Believers: A Band of Intellectual Brothers is Mounting a Crusade Against Belief in God. Are They Winning Converts or Merely Preaching to the Choir?,' *Wired*, 14(11), November, 2006)

## Anffyddiaeth Newydd

### Pwyntiau trafod

1. A yw crefydd 'gymedrol' mor beryglus â chrefydd 'ffwndamentalaid'?
2. O safbwynt Cristion, Iddew neu Fwslim, pa ymatebion y gellid eu rhoi ar gyfer pob un o ddadleuon anffyddwyr newydd?
3. A yw'r farn ei bod 'yn bosib i bopeth gael ei esbonio gan wyddoniaeth' ynddi ei hun yn hawliad *gwyddonol*?

### Cyfeiriadaeth

- Brooke, J.H. (1991). *Science and religion: Some historical perspectives*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Dawkins, R. (1993). Letter: Scientific versus theological knowledge. *The Independent* (Saturday 20 March 1993).
- Dawkins, R. (2006). *The God delusion*. London: Transworld and New York: Houghton Mifflin.
- Dennett, D.C. (2006). *Breaking the spell: Religion as a natural phenomenon*. New York: Viking.
- Feuerbach, L. (2008 [1841]). *The essence of Christianity*. New York: Dover.
- Harris, S. (2004). *The end of faith: Religion, terror, and the future of reason*. New York: W.W. Norton.
- Harris, S. (2006). *Letter to a Christian nation*. New York: Alfred A. Knopf.
- Harrison, P. (2015). *The territories of science and religion*. London and Chicago: University of Chicago Press.
- Haught, J.F. (2008). *God and the new atheism*. Louisville, Kentucky: Westminster John Knox Press.
- Hitchens, C. (2007). *God is not great: How religion poisons everything*. New York: Twelve.
- Marino, G. (Ed.) (2004). *Basic writings in existentialism*. New York: Random House.
- Shapin, S. (1996). *The scientific revolution*. Chicago: University of Chicago Press.
- Ward, K. (2008). *Why there almost certainly is a God*. Oxford: Lion Books.

*Y Parchedig Athro David Wilkinson yw Prifathro Coleg Sant Ioan, Prifysgol Durham, ac mae'n addysgu yn yr Adran Diwinyddiaeth a Chrefydd. Mae ei waith presennol yn cynnwys perthynas diwinyddiaeth Gristnogol â diwylliant cyfoes, o wyddoniaeth i ddiwylliant pop. Mae cyhoeddiadau diweddar ganddo yn cynnwys Science, Religion and the Search for Extraterrestrial Intelligence (Oxford: Oxford University Press, 2017).*



# Islam a Democratiaeth: A ydyn nhw'n cydweddu neu'n anghymharus?

## Rhan 2: Dadleuon o Blaid ac yn Erbyn

Abdullah Sahin

*Mae'r erthygl hon yn dilyn dadansoddiad yr awdur i gefndir y berthynas rhwng Islam a democratiaeth seciwlar, a'r problemau a gyfyd (yn Herio Materion Crefyddol, Rhifyn 12). Mae'r erthygl bresennol yn cyflwyno'r dadleuon o blaid yn ogystal ag yn erbyn yr honiad y gall Islam gael ei chymodi â democratiaeth seciwlar fodern.*

Cyswllt manyleb:

*WJEC/CBAC Uned 3: /EDUQAS Eifen 1: Astudio Crefydd, Opsiwn B: Astudio Islam, Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd grefyddol, Gwybodaeth a dealltwriaeth o grefydd a chred.*

*EDEXCEL Papur 4: Opsiwn 4D: Islam, Testun 3: Ymarferiadau, 3.2 Yr ummah fel mynegiant o hunaniaeth Islamaidd; Testun 6: Crefydd a Chymdeithas, 6.3.*

*OCR Datblygiadau mewn Meddylfryd Islamaidd, 6: Heriau, Testun: Islam a'r Wladwriaeth.*

*AQA 2D Islam: Islam: Islam a'r her o seciwlariaeth; Islam, mudo a lluosogrwydd crefyddol.*

### Cyflwyniad

Yn rhifyn 12 o'r cylchgrawn hwn (sydd ar gael ar: <http://www.st-marys-centre.org.uk/resources/Aleveljournal.html> neu <http://www.saltleytrust.org.uk/challenging-religious-issues-journal/>), fe wnes i nodi cefndir y ddadl sy'n ymwneud ag Islam a democratiaeth, trwy ganolbwyntio ar y cyfryw faterion dan sylw ynghlwm wrthynt. Yn yr ail ran hon o'm cyflwyniad, rwy'n bwriadu archwilio'n feirniadol y dadleuon a gynigir o blaid yr honiad o

anghymarusrwydd rhwng Islam a democratiaeth yn ogystal â'r rhai sy'n awgrymu bod modd cymodi Islam â democratiaeth seciwlar fodern. Bydd rhan derfynol yn cynnig trosolwg o'r casgliadau.

### Democratiaeth seciwlar-ryddfrydol fel model o lywodraethu gwleidyddol

Tarddodd democratiaeth fodern yn y profiad gwleidyddol a'r gwaddol a adawyd gan y taleithiau dinesig yn yr

## Islam a Democratiaeth: A ydyn nhw'n cydweddu neu'n anghymarus? Rhan 2

hen Roeg, yr ymddengys ei fod wedi parhau dros gyfnod o ddwy ganrif, ond bu bron iddi fynd yn angof nes iddi gael ei hail-ddarganfod oddi mewn i gyddestun ymgyrch hirhoedlog yng Ngorllewin Ewrop (yn fras rhwng yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif) a ddigwyddodd rhwng Brenhinoedd a'r eglwysi Catholig a Phrotestannaidd. Cynhyrchodd yr ymdrech hon ryddfrydiaeth wleidyddol yn yr hon y gellid diogelu rhyddid sifil. Mae'n bwysig nodi bod y trawsnewidiad hanesyddol nodedig a ddigwyddodd yr adeg honno wedi integreiddio syniadau oddi wrth yr hen Roegwyr, sefydliadau Cristnogol a'r strwythurau llywodraethu seciwlar oedd yn graddol ymddangos. Esblygodd fframwaith o wladwriaeth gyfansoddiadol allan o amrywiaeth o strwythurau gweinyddol canoloesol mewn cyrff eglwysig, y cafodd eu hawdurdod a'u grym eu trosglwyddo'n raddol i system oedd yn etholedig a chynrychiadol. Ni fyddai syniadau democratiaidd cyfoes canolig, fel hawliau dynol cyffredinol, wedi bod yn bosib heb synthesis creadigol syniadau oddi wrth y Stoiciaid Groegaidd, safbwynt Iddewig-Gristnogol o wahanolrwydd y ddynolryw fel creadigaeth arbennig Duw a'r alwad gan Ymneilltuwyr yr ail ganrif ar bymtheg am ryddid crefyddol. Mae'r syniadau sylfaenol hyn wedi cael eu cyfundrefnu'n raddol yn chwyldroadau Ffrengig ac Americanaidd, ac yn y pen draw wedi cael eu casglu ynghyd yn y datganiad modern o hawliau dynol (Nippel, 2016).

Fodd bynnag, mae democratiaeth ymhell o fod yn system berffaith o lywodraethu. Yn yr hen wladwriaethau dinesig Groegaidd, byddai merched a chaethweision yn cael eu heithrio o'u hymwneud dinesig â ffurlywodraeth ddemocratiaidd. Gall democratiaethau'n hawdd ddod yn gul, gan arwain at

boblyddiaeth awdurdodol ac yn y pen draw, at unbenaethau, pryd y bydd trefn cyfraith, y gwahanu a'r annibyniaeth, yn achos grymoedd cyfreithiol, gweithredol a barnwrol, rhyddid barn, goddefu gwahaniaeth, ymreolaeth cymdeithas ddinesig, hawliau lleiafrifoedd, ac yn y blaen, ddim yn cael eu parchu. Mae'n bosib i awdurdodau llywodraethu gael eu cyfreithloni trwy ennill mwyafrif mewn plediais tra bo hawliau democratiaidd a dinesig ddim yn cael eu cynnal. Mae ysgolheigion yn nodi bod *isonomia* (cydraddoldeb mewn cyfraith), cysyniad arall o'r hen Athen sy'n ymwneud â llywodraethu poblog (llywodraeth y bobl), heb gael ei hadfer gan ddiwylliant gwleidyddol modern y Gorllewin. Yn fwy arwyddocaol, mae llywodraeth ddemocratiaidd angen diwylliant dinesig democratiaidd gweithredol a rhyw fath o fecanwaith o atebolrwydd fel gwasg rydd, parch tuag at gyfraith weithredol a gwrthblaid annibynnol. Roedd yr athronwyr Socrates, Plato ac Aristotlys yn amheugar o ddemocratiaeth, gan fod arni angen presenoldeb dinasyddion rhinweddol a fyddai'n gallu adnabod gwerthoedd dinesig a gweithredoedd a fyddai'n hanfodol i gynnal diwylliant democratiaidd o lywodraethu. Fe wnaethon nhw, felly, rybuddio na fyddai'n gweithredu'n briodol efallai ac y gallai ymhen amser droi yn system o gyfraith y dorf (*ochlocracy*). Yn hanes diweddar Gorllewin Ewrop, bu ymddangosiad Natsiaith yn yr Almaen yn enghraifft dda o sut y gellid defnyddio democratiaethau i sefydlu systemau gwleidyddol awdurdodus ac unbenaethol.

### **Y gosodiad ynghylch anghymarusrwydd Islam a democratiaeth**

Mae byrdwn y dadleuon sy'n honni anghymarusrwydd llwyr rhwng Islam a

## Islam a Democratiaeth: A ydyn nhw'n cydweddu neu'n anghymarus? Rhan 2

democratiaeth yn cylchdroi o gwmpas sofraniaeth absoliwt Duw, fel sy'n cael ei bwysleisio yn y Qur'ān a'r traddodiadau proffwydol, dros holl agweddau ar fywyd dynol - yn cynnwys y rhannau ysbrydol yn ogystal â'r rhannau gwleidyddol. Adnabyddir y ddadl hon fel '*hakimiyyat Allah*', gan gyfeirio at yr adnodau yn y Qur'ān sydd yn awgrymu bod yr holl awdurdod a'r sofraniaeth yn eiddo i Dduw (12:40). Cyflwynir hyn fel tystiolaeth fod y Qur'ān yn gorchymyn y dylai Mwslimiaid gyfeirio at awdurdod Duw, y proffwyd a'u holynwyr, y *khaliffau*, ym mhob peth sy'n ymwneud â bywyd (4:59). Ymhellach, tasg flaenaf awdurdod gwleidyddol Islamaidd, gan y khaliff, sydd yn ymgorffori'r awdurdod ysbrydol yn ogystal â'r awdurdod daearol, yw sicrhau gweinyddiad y *sharia*, crynswth y cyfreithiau cysegredig Islam sy'n cynrychioli'r ewyllys dwyfol. Fel y cyfryw, ystyrir *sharia* i fod yn ffenomen anhanesyddol '*ahistorical*' wedi ei benodi am byth ac ymhob lle. Yn unol â'r safbwynt hwn, mae gan Islam system wleidyddol eglur o'r enw *khalīfah* sydd wedi ei ddiogelu oddi mewn i ffynonellau craidd y Mwslim, y Qur'ān a Hadith, a gafodd ei chymhwyso gan y proffwyd, a phan fu ef farw cafodd ei dilyn yn ofalus iawn gan ei olynwyr a oedd wedi cael eu harwain yn briodol. Roedd pob un o'r rhain yn meddu ar rinweddau ysbrydol, personol neilltuol oedd yn eu cymhwyso ar gyfer arwain yr holl genedl Fwslimaidd, yr *umma*. Mae'r rhinweddau hyn, dadleuir, yn ganfyddadwy ymhlyg yn y ffynonellau Mwslimaidd sylfaenol, y Qur'ān a'r Hadith, ac yn fframwaith ehangach y Gyfraith Islamaidd. Mae'r ddadl hon hefyd yn pwysleisio arwyddocâd y ffyrdd yr oedd y khaliffau cynnar hyn yn cael eu henwebu a'u dewis gan bwyllgor arbennig o'r enw *ahl al-ḥall wal-aqd* (y bobl oedd yn caniatáu

ac yn gwahardd - *the people of loosing and binding*), term a ddefnyddiwyd yn ddiweddarach gan rai yn trin a thrafod agweddau gwleidyddol Islamaidd wrth gyfeirio at yr ysgolheigion crefyddol a chyfreithiol oedd yn gymwys i benodi a diswyddo llywodraethwyr. Fel y cyfryw dan sylw yma, roedd y *khaliffau* - Abu Bakr (632-34 CE), Omar (634-644 CE), Uthman (644-656 CE) ac Ali (656-661 CE) yn gosod y safonau normadol ar gyfer y system wleidyddol 'ddwyfol rodd' o *khalīfah* yr honnir iddi gael ei dilyn trwy hanes Islam hyd ei diddymiad yn y flwyddyn 1924 gan Atatürk, sylfaenydd gwlad Twrci fodern - a grëwyd o ludw'r Ymerodraeth Otomanaidd yn unol â delwedd gwlad seciwlar yng ngwladwriaethau'r Gorllewin. Yn Islam Shia, mae'r awdurdod crefyddol a'r ysbrydol ynghyd yn 'nwyfol-benodiad' *imams*, nad ydynt yn gorfod wynebu enwebiad nac etholiad ond sy'n ddynodedig gan *nas*, yr awdurdod a'r ysgrythur ddwyfol.

Mae'n ymddangos bod y cyfryw ddiwinyddiaethau gwleidyddol yn arwydd o system lywodraethu wleidyddol lle y mae Duw yn sofran absoliwt ac oddi wrth yr hwn y mae pob awdurdod yn deillio. Er nad oes system o glerigwyr swyddogol a chorff awdurdod hierarchaidd yn debyg i un eglwysig, yn rhan o Islam Sunni, mae'r khalif – trwy rinwedd o fod yn gynrychiolydd Duw ar y ddaear (yn cael ei ddangos yn aml fel cysgod Duw, *zilullah*, yn ffordd o feddwl gwleidyddol a chyfreithiol Mwslimiaeth canoloesol) – yn cael ei ystyried fel un sy'n cynrychioli'r awdurdod ysbrydol yn ogystal ag awdurdod gwleidyddol ac sy'n gorfodi'r gyfraith ddwyfol (*sharia*). Mae'r gosodiad ynghylch anghymarusrwydd categoriaidd rhwng Islam a democratiaeth yn seiliedig ar y safbwynt bod gan Islam system gyfreithiol wedi ei diffinio'n eglur sy'n

## Islam a Democratiaeth: A ydyn nhw'n cydweddu neu'n anghymharus? Rhan 2

y mddangos ei bod yn arddangos ffurfiau cadarn o *theocratiaeth* yn ogystal â *theonomiaeth* (hynny yw, llywodraeth sy'n seiliedig ar gyfraith ddwyfol, *sharia*).

Mae ysgolheigion yn aml yn rhoi clod i Flavius Josephus, hanesydd Iddewig a oedd yn byw yn ystod canrif gyntaf y Cyfnod Cyffredin, am gyflwyno'r cysyniad 'theocratiaeth' wrth iddo ddisgrifio nodweddion model llywodraethu Iddewig. Dadleuodd Josephus, tra roedd dynoliaeth wedi datblygu nifer helaeth o ddulliau o lywodraethu, y gellid cynnwys y rhan fwyaf ohonyn nhw dan y tri math canlynol: Monarchiaeth (llywodraeth linachyddol), oligarchiaeth (llywodraeth gan grŵp neilltuol o bobl) a democratiaeth (llywodraeth y bobl). Roedd yn nodi, fodd bynnag, bod llywodraeth Iddewig yn unigryw ac yn defnyddio'r term 'theocratiaeth' i ddisgrifio'r ffurflywodraeth hon a ordeiniwyd gan Moses, pryd y mae Duw yn oruchaf a'i Air Ef yn gyfraith.

Mae'r farn anghymharus yn pwysleisio bod democratiaeth yn seiliedig ar y syniad bod sofraniaeth wleidyddol yn perthyn i bobl/bodau dynol ac, fel y cyfryw, yn mynd yn erbyn egwyddor sylfaenol Islam mai Duw yw'r goruchaf cyffredinol dros faterion dynol. Ar ben hynny, mae'r egwyddor o secwlariaeth mewn democratiaeth ryddfrydol, sy'n gofyn am wahanu crefydd oddi wrth wleidyddiaeth (a lle tybir bod crefydd/eglwys yn ymwneud â bywyd ar ôl marwolaeth unigolion, ac yn llywodraethu eu presenoldeb corfforol a'u heiddo ar y ddaear hon), yn mynd yn erbyn hunan-ddealltwriaeth Islam fel ffordd o fyw *gyflawn*. Ar ben hynny, mewn democratiaeth gallai pleidlais o ddim ond 51% yn y senedd gyflwyno deddfau sy'n gwrth-ddweud dysgeidiaeth Islamaidd. Ac mewn democratiaeth mae'r pwyslais ar ryddid lleferydd a

chydreddoldeb cyflawn gerbron y gyfraith yn awgrymu y gellid beirniadu crefydd, hyd yn oed ei gwawdio. Fel y gwelir o'r persbectif hwn, gellir ystyried bron bob agwedd ar ddemocratiaeth ryddfrydol a seciwlar fel bod yn amlwg wrth-Islamaidd. Mae'n dilyn, felly, na ddylai Mwslimiaid, pa un ai ydyn nhw'n byw mewn cymdeithas fwyafrifol Fwslimaidd neu leiafrifol Fwslimaidd, ymwneud â system a ddatganwyd i fod yn anghrediniol (*kufr*) sy'n debyg i'r oes o anwybodaeth gyn-Islamaidd (*jahiliyya*) seithfed ganrif Arabia. Yn hytrach, dylai Mwslimiaid ddilyn athrawiaeth *al-walaa wal bara*: teyrngarwch llym i Fwslimiaid a datgysylltu oddi wrth rai nad ydynt yn Fwslimiaid, y cyfeirir ati yn aml yn y Qur'ān (e.e. 2:28). Ar ben hynny, mae'r persbectif hwn yn mynnu dilyn yn llythrennol egwyddor yr adran reoleiddiol a gwleidyddol diriogaethol ganoloesol rhwng trigfan Islam (*dar al-Islam*), lle y mae cyfraith Islamaidd yn cael ei chymhwyso, a thrigfan nad yw'n Islam, o anghredinwyr (*dar al-kufr*). Mae hyn wedi arwain at y grwpiau crefyddol eithafol modern yn dod yn obsesiynol ynghylch creu trigfan gwleidyddol Mwslimaidd yn arddull canoloesol er mwyn cymhwyso *sharia* yn llawn, a rhybuddio Mwslimiaid i fod mewn cyflwr parhaus o wrthsefyll, os nad rhyfel, yn erbyn pobl nad ydynt yn Fwslimiaid.

Rhaid nodi bod y llinell hon o ddiwinyddiaeth wleidyddol lythrennol ac anhanesyddol o fewn Islam Sunni wedi'i chyfyngu i ychydig o grwpiau lleiafrifol a ddatblygodd yng nghyd-destun byd Mwslimaidd ôl-drefedigaethol. Yn *hanesyddol*, fe wnaeth Islam Sunni ffurfio'n ysgubol yr hyn y gellir ei disgrifio fel diwinyddiaeth wleidyddol dawelyddol/oddefol, a ddatblygodd o ymdrechion i osgoi unrhyw anhrefn gwleidyddol ac a bwysleisiodd yr angen i

## Islam a Democratiaeth: A ydyn nhw'n cydweddu neu'n anghymharus? Rhan 2

ddiogelu a chynnal sefydlogrwydd gwleidyddol a lles cymdeithas. (Am ragor o wybodaeth, gweler rhan un yr erthygl hon.) Fodd bynnag, mae profiad trawmatig o gymheiriadaeth y Gorllewin ac ymyrraeth ddilynol o bwerau trefedigaethol yn y byd Mwslimaidd wedi cyfrannu at ymddangosiad ystyriaeth gwleidyddol radical ddeuaidd o Islam, a ffurfiwyd bron yn gyfan gwbl fel adwaith cryf i'r Gorllewin. Ail-ffurfiwyd Islam ar ffurf cyfundrefn gyfalafol neu gomiwnyddol Orllewinol dechrau'r ugeinfed ganrif, a feddai ar ei systemau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol 'Islamaidd' amgen ei hun (nizam).

Yn raddol mae grwpiau ar wahân ac is-grwpiau anhyblyg wedi dod i'r amlwg allan o'r adfywiad adweithiol cynnar hwn a symudiadau gwleidyddol iawn sy'n gynyddol wedi mabwysiadu llythrennedd a rhagolygon treisgar y Khawarij, y sect gwir eithafol gyntaf yn Islam (gweler rhan gyntaf yr erthygl hon). Fodd bynnag, nid yw eu dehongliad hwy o Islam wedi dod o hyd i gefnogaeth ymysg Mwslimiaid prif ffrwd. Ond mae ymosodoldeb cynyddol polisi tramor y Gorllewin tuag at y byd Mwslimaidd, a chynnydd mewn anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol, tlodi a llygredd mewn cymdeithasau Mwslimaidd, wedi helpu grwpiau ymylol i ddod yn llawer mwy lleisiol, a hyd yn oed berswadio grwpiau adfywiad eraill a oedd wedi aros yn oddefol yn gwleidyddol, e.e. y mudiad *Salafi* eang, i fabwysiadu eu gweledigaeth grefyddol dotalitaraid ac apocalyptaid-feseianaidd. Mae'r syniadau eithafol a gynigir gan grwpiau ymylol bach fel *hizb al-tahrir*, sydd wedi poblogeiddio rhethreg gwrth-ddemocratiaeth, wedi cael eu cofleidio'n raddol gan rwydweithiau terfysgaeth rhyngwladol mwy treisgar fel *al Qaidah*

ac, yn ddiweddarach, gan y mudiad a gwmpodd yn ddiweddar, a enwid y Wladwriaeth Islamaidd (*Islamic State*) y ffurf fwyaf marwol o gwleidyddiaeth Islamaidd gyfoes.

Yn Islam Shia, mae tebygrwydd mawr i Gatholigiaeth ac, i ryw raddau, â rhai ffurfiau o Fwdhaeth fel ysgol Gelug o Fwdhaeth Tibetaidd, yn yr hon yn draddodiadol, mae'r Dalai Lama ynghyd â'r corff mynachaid wedi cynnwys arweinyddiaeth gwleidyddol. Mae'r imamau dwyfol-benodedig yn honni rôl yr awdurdod pabaidd anhyblyg. Mae Gweriniaeth Iran, a sefydlwyd yn 1979, yn aml yn cael ei darlunio fel 'gweriniaeth theocrataidd' ac mae ganddi gymysgedd o elfennau theocrataidd a democrataidd. Mae'n perthyn iddi lywydd a senedd etholedig, ond mae'r Arweinydd Ysbrydol Goruchaf yn meddu ar fwy o bŵer na'r llywydd a etholwyd. Yn bwysicach fyth, yn absenoldeb cudd *imam* a ddisgwylir, cyflwynwyd cyngor crefyddol arbennig o ysgolheigion crefyddol (a elwir yn *wilayat al-faqih*) i sicrhau presenoldeb Islamaidd ar bob lefel o'r wladwriaeth.

### Y farn bod Islam a democratiaeth yn gymharus

Mae'r gosodiad hwn ynghylch cymarusrwydd yn dibynnu'n gyntaf ar ddad-adeiladu'r dadleuon a gyflwynir i hawlio anghymarusrwydd categoraidd rhwng Islam a democratiaeth. Mae ail elfen y gosodiad cymarusrwydd yn awgrymu *nad* yw astudio'r Qur'ân, y traddodiadau proffwydol a'r profiad Mwslimaidd cynnar o ffurfio'r gymuned ffyddlon o dan arweiniad proffwydol yn datgelu presenoldeb system gwleidyddol sydd wedi'i ddiffinio'n glir. Mae'r defnydd Qur'ânaidd o'r termau *khalif/ khilāfah* yn cyfeirio at stiwardiaeth y ddaear sydd wedi'i hymddiried i ddynoliaeth. Mae bodau dynol yn gyfrifol am y ddyletswydd

## Islam a Democratiaeth: A ydyn nhw'n cydweddu neu'n anghymharus? Rhan 2

foesol a chrefyddol o ofalu am y ddaear, ac am ei rheolaeth gyfiawn a chyfrifol. Heblaw hynny, mae'r Qur'ān yn glir ynghylch yr egwyddorion a'r gwerthoedd hynny y mae angen eu hystyried mewn bywyd gan y ffyddlon: fel cyfiawnder, cydnabyddiaeth o urddas a hawliau pawb, a llunio cymdeithas deg a ffyddlon. Nid yw'r Qur'ān yn rhagnodi unrhyw offer gwleidyddol gwirioneddol i gyflawni'r nodau hyn. Mae'n cyfeirio at bwerau gwleidyddol a theyrnasoedd gyda'r gair *mulk*, ac yn cyflwyno enghreifftiau o frenhinoedd Israel, fel Dawuud (Dafydd) a Suleyman (Solomon), y rhoddodd Duw rinweddau arweinyddiaeth ysbrydol a daearol iddyn nhw. Mae'r Qur'ān hefyd yn cyfeirio at deyrnas arbennig dan arweiniad menyw, Belqis (Brenhines Shiba), heb wneud unrhyw farn negyddol ynghylch a all menywod fod yn arweinwyr gwleidyddol. Yr hyn y mae'r Qur'ān yn ymddangos ei fod yn ymddiddori ynddo yw p'un a yw cyfiawnder yn rheoli yn y teyrnasoedd hyn, ai peidio. Mae cenhadaeth broffwydol weddnewidiol y Beibl Hebraeg sy'n canolbwyntio ar gyfiawnder, a gaiff ei chrynhoi'n huawdl gan y diweddar John Hull (2014), yn cael ei rhannu'n gryf gan Islam. Mae'r ysbryd proffwydol, trwy ddarparu arweiniad moesol ac atebolrwydd beirniadol i'r grym daearol, yn galw'n bennaf am ffurfio cymdeithasau cyfiawn a ffyddlon.

Yn fwy arwyddocaol, datgelwyd Islam o fewn realiti diwylliannol llwythol lle gwelodd hyd yn oed yr Arabaidd sefydlog o fewn dinas fechan Mecca system arweinyddiaeth deyrngarol etifeddol. Trawsffurfiodd Islam y model hwn trwy bwysleisio arwyddocâd meritocraziaeth, rhagoriaeth foesol a'r dewrder daionus - ond yn anad dim, proffwydol - i hwyluso cyfiawnder a lles pawb. Mae'r Qur'ān yn dangos

ymddiriedaeth yn y gallu dynol a chyddoethineb i ddwyn y modd o wireddu'r gwerthoedd hyn mewn bywyd go iawn. Aeth y model a osodwyd gan y *khalifs* cynnar a gyfarwyddwyd yn gywir y tu hwnt i'r arweinyddiaeth lwythol arferol gan bendefig, gan bwysleisio cyfiawnder a meritocraziaeth fel y meini prawf allweddol ar gyfer cael eu hethol fel arweinydd. Mae un adroddiad proffwydol yn datgan, hyd yn oed os yw caethwas du yn tybio eich arweinyddiaeth, cyn belled â'i fod yn arsylwi gwerthoedd Islam yn ei lywodraethiad ufuddhewch iddo - *'even if a black slave assumes your leadership, as long he observes the values of Islam in his governance obey him'*, ac un arall yn nodi nad oes unrhyw ufudd-dod i reolwr anghyfiawn - *'there is no obedience to an unjust ruler'*. Adroddwyd bod y proffwyd ei hun wedi dweud fod ymhlith y *jihād* mwyaf air o gyfiawnder o flaen rheolwr gormesol - *'among the greatest jihād is a word of justice in front of a tyrannical ruler'*. Mae pob un o'r rhain yn awgrymu bod rheolwyr yn parhau i fod yn atebol i'r bobl y maen nhw'n eu rheoli. Yn bwysicach fyth, roedd y proffwyd, fel y dynodwr a'r arweinydd ysbrydol yn y gymdeithas Fwslimaidd gyntaf a ddaeth l'r amlwg yn Medinah, yn barod i weithio gyda'r boblogaeth nad oedd yn Fwslimaidd (Iddewig, Cristnogol ac Arabiaid paganau) trwy adeiladu consensws i sicrhau lles pawb, gan arwyddo'r siarter/addewid Medinah enwog yn 622 y Cyfnod Cyffredin (Ibn Ishaq, 2002) gan ddiogelu eu lles y mae rhai o'r farn eu bod yn rhagflaenu cyfansoddiadau modern. Mae'r Qur'ān yn nodi'n eglur y dylai ymgynghori ac adeiladu consensws arwain materion cymdeithasol y gymuned ffyddlon (42:38).

Yn olaf, ymddengys nad yw Muhammad wedi gweithredu fel rheolwr

## Islam a Democratiaeth: A ydyn nhw'n cydweddu neu'n anghymharus? Rhan 2

hollol anffaeledig. Mae adroddiad proffwydol yn ei ddangos yn rhoi cyngor i grŵp o ffermwyr datys a oedd yn awyddus i gyflwyno ei awgrymiadau yn eu fferm. Pan ymddangosodd nad oedd cyngor y proffwyd wedi arwain at y canlyniadau dymunol, roedd y ffermwyr yn siomedig. Mae'n debyg bod Muhammad wedi gwenu pan glywodd hyn a dywedodd wrth y ffermwyr mai dim ond ei farn bersonol ar y mater yr oedd ef wedi ei rhannu, gan ychwanegu 'rydych chi'n well, ac yn fwy cymwys i reoli eich materion bydol'. (Masnachwr oedd Muhammad, yn ôl ei broffesiwn, a oedd yn rhedeg busnes ei wraig Khadija nes iddo ymgymryd â'i alwedigaeth broffwydol.)

Roedd dinas frodorol Muhammad, Mecca, yn ganolfan fasnachol a oedd yn denu masnachwyr o dramor. Pan benderfynodd pobl Mecca sefydlu pwyllgor arbennig o ddynion rhinweddol fyddai'n addo amddiffyn lles a diogelwch masnachwyr tramor a fyddai'n dod yno, cyn ei broffwydoliaeth fe ymunodd Muhammad â'r fenter. Flynyddoedd yn ddiweddarach, ar ôl derbyn y datguddiad, byddai'n cofio'r pwyllgor hwn gyda pharch, y pwyllgor a sefydlwyd yn yr 'adeg o anwybodaeth' (*'time of ignorance'*) fel y'i gelwid (*jahiliyya*). Dywedir wrthym ei fod wedi dweud, pe bai'r pwyllgor yn dal mewn bodolaeth, ni fyddai wedi petruso i fod yn rhan ohono gan ei fod yn gwasanaethu lles y cyhoedd – *'if the committee was active he would not have hesitated to become part of it as it served the public good'*.

Mae'r gosodiad ynghylch cymarusrwydd yn dangos amrywiadau sylweddol. Yn ychwanegol at y sefyllfa uchod sy'n eiriol fersiwn Islamaidd o ddemocratiaeth, mae golwg fwy ymosodol sy'n awgrymu bod Islam yn gydnaws â seciwlariaeth a

democratiaeth; ac yn galw am fodel gwleidyddol seciwlar arddull y Gorllewin i'w gychwyn yn y byd Mwslimaidd er mwyn cyflawni diwygiadau gwleidyddol a chymdeithasol sydd eu hangen yn fawr. Cynrychiolydd modern cyntaf y farn hon oedd yr ysgolhaig Eifftaidd, Ali Abdel Raziq (m. 1966), a ddadleuai yn ei lyfr *Islam and the foundations of political power*, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1925, yn erbyn unrhyw rôl ar gyfer crefydd mewn gwleidyddiaeth, ac a awgrymodd nad yw Islam yn eirioli ffurf benodol o lywodraeth - *'Islam does not advocate a specific form of government'*. Canolbwyntiodd ef ei feirniadaeth ar y rhai sy'n defnyddio cyfraith grefyddol fel presgripsiwn gwleidyddol cyfoes, ac ar hanes y llywodraethwyr sy'n honni dilysrwydd trwy'r *khalifate*. Fe feirniadodd hefyd gyfartalu seciwlariaeth gydag anffyddiaeth (mewn Arabeg - *la deeni*). Er ei fod wedi parhau'n ffigwr dadleuol, mae ei syniadau wedi llunio'r mudiad modernaidd Islamaidd a oedd yn galw am ddiwygiadau radical cymdeithasol, gwleidyddol a chyfreithiol yn y byd Mwslimaidd.

### Casgliad

Gellir tynnu nifer o gasgliadau o'r ymchwiliad hwn. Yn gyntaf, mae set gymhleth o faterion sy'n ymwneud â'r cwestiwn ynghylch cymarusrwydd Islam a democratiaeth. Mae angen mynd i'r afael â dimensiynau diwinyddol, gwleidyddol a hanesyddol y pwnc trwy fabwysiadu fframwaith methodolegol rhyngddisgyblaethol sydd ddim yn rydwythaid (reductionist) nac yn anachronyddol (anachronistic).

Yn ail, mae edrych yn fanwl ar y Qur'an a'r adroddiadau proffwydol yn awgrymu bod presenoldeb cyfannol o'r cyflwr dynol â'i holl amodoldeb hanesyddol a diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys

## Islam a Democratiaeth: A ydyn nhw'n cydweddu neu'n anghymharus? Rhan 2

ymwybyddiaeth gadarn y bydd cymhwysu'r ddysgeidiaeth graidd Islamaidd, *sharia*, yn parhau i fod yn ddibynnol ar gyd-destun ac yn agored i addasiadau (5:48). Mae diwinyddiaeth wleidyddol yn Islam yn wreiddiol yn anelu at addysgu dynoliaeth i sylweddoli bod stiwardiaeth y ddaear yn cael ei hymddiried iddyn nhw; a bod galw i bobl ddod yn gatalyddion ar gyfer ffurfio ffurflywodraethau cymdeithasol cyfiawn a heddychlon lle mae urddas a hawliau pawb yn cael eu sicrhau. Yn anad dim, dylid cydnabod hawl Duw fel rhoddwr yr anrheg o fywyd, a bod y galw hwn wedi'i fframio a'i gyfiawnhau o fewn rhesymwaith moesegol clir. Mae llunio dynoliaeth gyfiawn werthfawrogol yn ategu neges ganolog y Qur'an i ddynoliaeth ac, o ganlyniad, mae Duw yn parhau'n ddiolchgar i ddynoliaeth (Sahin, 2017a). Nid yw Duw yn cystadlu â grym dros dro daearol bodau dynol. Mae ganddo ddiddordeb mewn gweld sut y bydd bodau dynol yn gweithredu eu rhyddid a'u grym ar y ddaear: a fyddan nhw'n ymateb i gri'r gorthrymedig a'r rhai sydd ar y cyrion, ac yn dod â gweithredoedd da sy'n fuddiol iddyn nhw eu hunain ac eraill; neu a fyddan nhw'n dewis achosi drygioni ac anghyfiawnder?

Yn drydydd, mae'r data ysgrythurol, diwinyddol a hanesyddol yn awgrymu nad oes rhwystr gwirioneddol i ddeialog greadigol a beirniadol rhwng Islam a democratiaeth seciwlar gyfoes. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu mynd y tu hwnt i ddehongliadau llythrenolaidd ac awdistaidd Islam, yn enwedig troi sharia yn ddim ond corff o reoliadau sy'n cael eu dal mewn ffordd ddeuaidd o fframio'r berthynas rhwng Islam a democratiaeth. Mae angen brys i ddatblygu hermeniwteg (dehongliad) Islamaidd adlewyrchol a chyd-destunol, fel y gellir sylweddoli cymeriad a gwerthoedd

cymdeithasol a gwleidyddol, ysbrydol, sy'n canolbwyntio ar gyfiawnder, a'i negeseuon cymdeithasol a gwleidyddol ac ysbrydol.

Yn bedwerydd, ni ddylid cymryd bod presenoldeb gweithredol asiantaeth ddynol mewn gwleidyddiaeth yn groes i sofraniaeth Duw. Yn aml, mae cryn dipyn o gamddealltwriaeth ynglŷn â darnau penodol o'r Qur'an sy'n cael eu cymryd yn rhy hawdd fel rhywbeth sy'n pwyntio tuag at lywodraethiad cymdeithasol-wleidyddol sy'n canolbwyntio ar Dduw ac sy'n gadael dim llawer o le i asiantaeth ddynol. Er enghraifft, mae'r darnau o'r Qur'an sy'n rhybuddio 'Pobl y Llyfr', ac yn enwedig Iddewon y seithfed ganrif o'r Madinah, yn erbyn anwybyddu'r arweiniad dwyfol sydd ganddyn nhw eisoes ac esgeuluso ei gais awdurdodol i'w bywydau (5: 44-45), wedi cael eu hailadrodd dro ar ôl tro i hermeniwteg naif ac fe'i defnyddiwyd i ddatgan anghyfreithlondeb cyflwr seciwlar a democrataidd modern.

Yn bumed, nid yw'r dynwared syml o ddemocratiaeth seciwlar y Gorllewin yn ffordd adeiladol ymlaen i gymdeithasau Mwslimaidd ddiwygio eu systemau gwleidyddol. Mae diwygiad o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol mabwysiadu ymgysylltiad myfyriol ag etifeddiaeth wleidyddol Islamaidd a Gorllewinol mewn modd beirniadol. Wrth gysylltu â hi'n feirniadol, byddai seciwlaidd (*secularity*) er enghraifft, yn wahanol i'r cysyniad culach a mwy ideolegol o seciwlariaeth (*secularism*), fe fyddai'n bosib ei dehongli fel egwyddor gynhwysol hanfodol sy'n llywio trefn wleidyddol ddemocrataidd fodern, ac na ddylid ei hystyried yn gynhenid yn antithetical i Islam nac yn fygythiad iddi. Mae'r modelau amrywiol o seciwlariaeth o fewn democratiaethau rhyddfrydol y Gorllewin yn awgrymu y gellir, ochr yn



## Islam a Democratiaeth: A ydyn nhw'n cydweddu neu'n anghymharus? Rhan 2

ochr â systemau gwerthoedd eraill, gellir cydnabod traddodiadau ffydd, ynghyd â'u systemau gwerth a'u sensitifrwydd ar y cyd, i raddau amrywiol, yn cael eu lletya. Ar ben hynny, mewn Ewrop seciwlar fodern, er enghraifft yn yr Almaen, mae democratiaeth Gristnogol yn fudiad gwleidyddol sefydledig a oedd yn cyfuno ffurfio democratiaethau sefydlog yn Ewrop yn dilyn yr ail ryfel byd. Efallai heddiw mewn cymdeithasau mwyafrif Mwslimaidd, yr hyn sydd ei angen ar frys yw ymddangosiad gwleidyddiaeth ddemocrataidd gynhwysol a ysbrydolir gan werthoedd dinesig Islamaidd o barchu

urddas dynol (*karama*), adeiladu consensws (*ijma*) ac arsylwi cyfiawnder (*adala*) ym mhob lefel o gymdeithas. Yn yr un modd, mewn cymunedau lleiafrifol Mwslimaidd yn Ewrop yr hyn sydd ei angen yw ffurfio diwinyddiaeth gyhoeddus Islamaidd newydd sy'n annog presenoldeb Mwslimaidd sy'n ffyddlon yn feirniadol (*critically faithful*) (Sahin, 2017b) sy'n golygu ymgysylltiad gweithredol o fewn fframwaith gwleidyddiaeth ddemocrataidd seciwlar, ac sy'n ymrwymedig i ddiogelu urddas dynol, a chynnal gwerthoedd cyfiawnder economaidd-gymdeithasol a'r daioni cyffredin.

### Cysylltau

<http://www.bbc.co.uk/news/magazine-23810527> (Roger Scruton, A Point of View: Democracy and Islamic law)

<https://www.bahasakita.com/islam-and-democracy-in-indonesia/> (Dr Nikolaos van Dam)

### Pwyntiau trafod

1. Gan eich bod wedi darllen y dadleuon o blaid ac yn erbyn anghymarusrwydd Islam â democratiaeth, pa safbwynt ydych chi'n meddwl sydd fwyaf argyhoeddedig a pham?
2. Trafodwch, gan gyfeirio'n neilltuol at Islam, yr honiad cyffredinol bod gan grefydd a gwleidyddiaeth amcanion mor wahanol na ddylent byth fod yn gymysg â'i gilydd.
3. A ydych chi o'r farn bod trefniadaeth cymdeithas seciwlar yn bwysig mewn democratiaethau, ac a oes modd i grefyddau fel Islam gael eu hystyried fel rhai sydd â rôl ddinesig ymysg cymdeithasau democrataidd modern y Gorllewin?
4. Beth yw prif wendidau democratiaeth? Allwch chi feddwl am well systemau amgen?

## Cyfeiriadau

- Abdel Razek, A. (2013). *Islam and the foundations of political power*. Edinburgh: Edinburgh University Press.
- Hull, J.M. (2014). *Towards the prophetic church: A study of Christian mission*. London: SCM Press.
- Nippel, W. (2016). *Ancient and modern democracy: Two concepts of liberty?* Cambridge: Cambridge University Press.
- Ibn Ishaq, M. (2002). *The life of Muhammad. A translation of Ishaq's 'Sirat Rasul Allah'*. Translated by A. Guillaume. Oxford: Oxford University Press.
- Nippel, W. (2016). *Ancient and modern democracy: Two concepts of liberty?* Cambridge: Cambridge University Press.
- Sahin, A (2017a). Education as compassionate transformation: The ethical heart of Islamic pedagogy. In *The pedagogy of compassion at the heart of higher education* (pp. 127-139). Ed. P. Gibbs, Geneva: Springer.
- Sahin, A (2017b). Dignity of difference and recognition of interdependence: Reimagining Islamic social ethics within the context of European Muslim Diaspora. *Crucible: The Journal of Christian Social Ethics*, October 2017, 26-40.

*Mae Dr Abdullah Sahin yn Ddarllen ydd mewn Addysg Islamaidd yn Uned Ymchwil Crefyddol ac Addysgol Warwick, ym Mhrifysgol Warwick. Ef yw awdur New directions in Islamic education: Pedagogy and identity formation (Markfield: Kube Academic, 2014).*

## Rhai Damcaniaethau Anwybyddol ynghylch

### Moesoldeb

Jeff Astley

*Mae'r erthygl yn rhoi ystyriaeth feirniadol ar y damcaniaethau meta-foesegol anwybyddol o emosiynaeth a mynegiannaeth.*

*Cyswllt manyleb:*

*WJEC/CBAC Thema 1: Meddylfryd Moesegol (rhan 2): Gwybodaeth a dealltwriaeth o grefydd a chred, C.: . . . Ymagweddau meta-foesegol: Emosiynaeth (=EDUQAS Eifen 3: Crefydd a Moeseg Thema 1: Meddylfryd Moesegol, F. Ymagweddau meta-foesegol: Emosiynaeth).*

*EDEXCEL Papur 2: Crefydd a Moeseg; Testun 4.1 Meta-foeseg  
OCR Crefydd a moeseg Testun 4. Iaith Foesegol: Meta-foeseg.*

#### Cyflwyniad

Mae dau fath o *ddamcaniaeth* wrth astudio moeseg:

- damcaniaethau 'normadol' trefn-gyntaf ynghylch pa fath o gamau sy'n iawn neu ddim yn iawn, neu pa fath o berson ddylai rhywun fod, fel damcaniaeth iwtilitariaeth neu rinwedd; a
- damcaniaethau ail-drefn sy'n ymwneud ag *ystyr* galw camau'n 'gywir' neu'n 'anghywir', a chymhellion a chymeriadau'n 'dda' neu'n 'wael' (damcaniaethau meta-foesegol).

Mae *meta-foeseg*, fel mae'r enw'n awgrymu, yn dod 'ar ôl' moeseg. Mae'n ein cymryd y tu ôl i'n trafodaethau moesol cyffredin am bobl a'u hymddygiad. Nid yw meta-foeseg ynddi ei hun yn ffurfio barnau moesol sylweddol; yn hytrach, mae'n dweud wrthym (er enghraifft) pa fath o ddyfarniad a wneir pan fyddwn yn llunio barn ynghylch dweud celwydd a godineb - '*what kind of judgement is made when we make judgements about lying and adultery*' (Benn, 1998, t. 13).

Mae llawer o theorïau meta-foesegol yn ystyried moesoldeb fel mater

## Rhai Damcaniaethau Anwybyddol ynghylch Moesoldeb

gwybyddol yn ei hanfod, yn yr ystyr ei fod yn gwneud hawliadau am yr hyn sy'n wir, am 'ffeithiau moesol' gwrthrychol – fel ffeithiau am fodolaeth gwerth moesol neu ewyllys Duw. O ran y safbwyntiau hyn, mae iaith mewn moesoldeb yn 'honni gwirionedd'.

Mae damcaniaethau *anwybyddol*, fodd bynnag, yn dadlau nad yw moesoldeb yn cynnwys credoau am ffeithiau gwrthrychol, ond ei fod yn fynegiant o'n datganiadau goddrychol – fel ein hemosiynau, agweddau, ymrwymadau neu ein 'safiadau' ynglŷn â mater neilltuol. Gan nad yw iaith foesol yn wybyddol nid yw'n gwneud datganiadau, ac felly nid yw byth (o leiaf, nid yn syml) yn wir neu'n anwir.

Wrth lunio barn foesol bod gweithred benodol yn 'iawn' neu sefyllfa benodol yn 'dda', gall y siaradwr fod yn gwneud sawl peth:

- *rhagnodi* yr agwedd y dylai pobl eraill ei chael tuag at y weithred neu'r sefyllfa honno, a sut y dylent ymddwyn mewn perthynas â hi;
- *mynegi* yr emosionau neu'r agweddau sydd gan y siaradwr ei hunan tuag at y weithred neu'r sefyllfa honno, a thrwy oblygiad a fyddai ganddo ef neu hi tuag at bob gweithred neu sefyllfa 'foesol o'r un fath';
- *ymrwymo* ei hun i 'norm' neu gytundeb o fod o blaid (neu yn erbyn) pob gweithred neu sefyllfa o'r fath, ac o weithredu'n briodol.

Mae damcaniaethau meta-foesegol anwybyddol yn dueddol o nodi un o'r gweithgareddau hyn fel yr un sy'n gwneud y farn foesol yn 'foesol'. Felly, mae rhagysgrifiadaeth (*prescriptivism*) (Hare, 1952, 1963) yn ystyried iaith foesol yn rhywbeth sy'n cyhoeddi

gorchmynion ymhlyg, cymhellion, canmoliaeth neu gondemniadau sy'n cyffredinol, yn yr ystyr eu bod yn berthnasol i bawb yn yr un amgylchiadau. Os dywedaf fod trais yn anghywir, felly, rwyf mewn gwirionedd yn rhagnodi'r farn y dylai pob person arall ei chymryd bob amser ynghylch gweithred o drais.

Mae'r teulu o safbwyntiau sy'n cael ei gynrychioli gan y termau *emosiynaeth*, *mynegiannaeth* a *rhagysgrifiadaeth* (*projectivism*) (gweler isod) yn gosod ei ffocws yn hytrach ar y farn mai ymadroddion o emosionau neu agweddau yw honiadau moesol yn eu hanfod.

### Goddrychiaeth

Yn achos *goddrychiaeth*, mae barnau moesol yn seiliedig ar gyflyrau goddrychol dynol.<sup>1</sup> Gall goddrychiaeth fod naill ai'n wybyddol neu'n anwybyddol.

Mae *goddrychiaeth syml* yn gyfrif gwybyddol sy'n trin ein barnau moesol fel datganiadau o'r ffeithiau am ein cyflyrau goddrychol (ein hagweddau neu ein teimladau): e.e. eich bod yn ffieiddio creulondeb. Mae beirniaid yn dweud ei fod yn methu fel cyfrif o foesoldeb oherwydd ei fod yn deall gwerthoedd yn syml fel dewisiadau personol, ac yn methu ag egluro:

- (a) naill ai anghytundeb moesol (gan fod 'rwy'n hoffi trais' yn eithaf cydnaws â 'rwy'ti'n casáu casineb');
- (b) neu resymu moesol (gan gynnwys apeliadau at egwyddorion moesol).

Nid yw ein barnau moesol yn anffaeledig, fel mae gan fod 'goddrychiaeth syml' hefyd yn awgrymu.

<sup>1</sup>Defnyddir y term *sentimentaliaeth* yn aml ynghylch y farn bod gwerthusiad l'w ddeall trwy ymateb emosionol dynol - 'evaluation is to be understood by way of human emotional response' (D'Arms and Jacobson, 2006, tt. 187-188)

## Rhai Damcaniaethau Anwybyddol ynghylch Moesoldeb

Mae rhai athronwyr wedi dadlau mai'r broblem yw dim ond bod 'goddrychiaeth Syml' yn rhy syml - "*simple subjectivism is too simple*", ac wedi ceisio mireinio a gwella goddrychiaeth foesol (Rachels, 1993, t. 436; cf. 1999, pen. 3), a'i datblygu fel damcaniaeth anwybyddol.

### Emosiynaeth

Daeth yr ymgais gyntaf i gael ei galw'n *emosiynaeth*, y safbwynt nad credoau ynghylch teimlad ydyw ond *mynegiant* o deimlad. Felly, mae'r hawliad bod 'trais yn anghywir' yn cyfateb i ynganu'r gair 'trais' a gweiddi 'Bw!' Neu 'damnio', neu ysgwyd eich pen yn egniol, gan ddatgelu eich anghymeradwyaeth foesol o drais (gweler Ayer, 1936, pen. 6).

Er bod y ddamcaniaeth yn ei ffurfiau cynharach yn canolbwyntio ar fynegiant *emosiynau*, cytunodd y rhan fwyaf o esbonwyr ei bod yn well deall barn foesol fel mynegi agwedd neu 'safbwynt' (Blackburn, 2006, t. 149). *Agweddau* yw cyflyrau mewnol person sydd (a) yn cynnwys emosiynau (mewn graddau amrywiol), (b) bob amser 'o blaid' neu 'yn erbyn' rhywbeth, ac (c) yn ein rhagdueddu i ymddwyn mewn ffyrdd priodol tuag ato. Mae agweddau'n cynrychioli ein gwerthusiadau a'n cyfeiriadeddau personol. Felly, wrth wneud barnau moesol, dylid meddwl bod person (yn fwy neu'n llai cryf) yn mynegi ei feddwl ei hun, hynny yw, cyflwyno agwedd neu safbwynt fel yr agwedd neu'r safbwynt sydd i'w gynnal - '*voicing his own mind, that is, putting forward an attitude or stance as the attitude or stance that is to be held*' (t. 151).

Os yw hawliadau moesol yn cynrychioli mynegiant ein hagweddau, mae lle i *anghytuno*. Pan fydd pobl yn anghytuno ynghylch materion moesol, maen nhw eisiau pethau gwahanol. Mae pobl sydd ag agweddau gwahanol tuag at losgach

neu ryfel (dyweder) yn aml yn chwilio am sefyllfaoedd anghymharus yn y byd (gweler Price, 1969, tt. 409-412). Mewn materion moesoldeb, mae agweddau o'r fath yn cael eu credu'n gryf.<sup>2</sup>

*'Disagreement is possible because attitudes are adopted and maintained, need to be rationally grounded and can be attacked and defended'* (Urmson, 1968, t. 147). Ond beth yw lle *rheswm* yma? Os mai mater o roi rhesymau da dros ein gweithredoedd yw moesoldeb, a *all* moesoldeb fod yn oddrychiaeth?

### Sylwedyddion delfrydol?

Mae *damcaniaeth y sylwedydd* (neu'r *gwyliwr*) *delfrydol*, y mae rhai yn ei holrhain yn ôl i David Hume, yn trin y farn bod gweithred yn weithred gywir fel hawliad y byddai'n cael ei chymeradwyo gan sylwedydd *delfrydol* (diduedd, llawn rheswm a gwybodus, cyson a llawn cydymdeimlad). Mae'r farn felly yn gyffredinolgiaethol. Er nad yw hon yn sefyllfa *anwybyddol* bellach, a all gyfrif fel safbwynt goddrychiaethol? Efallai y gall hynny fod yn bosib, os mai dim ond yn yr ystyr ei fod yn y pen draw yn dal i fod ynghylch ein hanianawd dynol i ymateb i bethau.

Yng nghyd-destun emosiynaeth, gallai'r syniad o sylwedydd niwtral a llawn gwybodaeth ganiatáu i ni siarad am bwysigrwydd datblygu agweddau a hyd yn oed deimladau *rhesymol*. [*Such a*] '*moderate emotivism . . . still sees moral judgements as emotional exclamations, and not truth claims. But it insists that feelings can be rationally appraised to some degree: rational feelings are ones that are informed and impartial*' (Gensler, 1998, t. 67). Er nad

<sup>2</sup>Galwodd Stevenson (1944, t. 3) hyn yn anghytundeb mewn agwedd -'disagreement in attitude' yn wahanol i ddim ond anghytundeb *ynghylch* agweddau -'disagreement about attitudes'.

## Rhai Damcaniaethau Anwybyddol ynghylch Moesoldeb

yw hyn yn ymddangos fel y cyfan a olygir wrth sôn am resymu o egwyddorion moesol, mae'n ddefnydd cywir o 'r gair 'rhesymol'.

### **Mynegiannaeth/ allandaflaeth soffistigedig**

Mae Allan Gibbard yn dehongli'r gair 'rhesymol' mewn cyd-destun moesol fel ein ffordd ni o gymeradwyo gweithred fel 'y dewis doeth', 'yr hyn y dylem ei wneud', sy'n mynegi ein bod yn derbyn y normau sy'n caniatáu'r weithred (Gibbard, 1990, t. 9). Mae'r 'mynegiannaeth norm' hwn yn fersiwn soffistigedig o'r hyn a elwir yn awr, yn fwy cyffredinol, yn *fynegiannaeth (expressivism)*. Mae'r damcaniaethau agwedd mwy diweddar hyn o foeseq yn cydnabod bwlch rhwng bod ag agwedd neu emosiwn a mynegi'r pethau hynny, a bod hynny'n *briodol*. Mewn disgrifiadau o'r fath, nid yw moesoldeb 'ddim ond' yn oddrychol, nac ychwaith yn 'syml' yn anwybyddol, er eu bod yn cydnabod nad yw'r syniad o wrthrychedd mewn moeseg yr un math â gwrthrychedd mewn rhesymeg neu wyddoniaeth.

Mae Simon Blackburn yn amddiffyn mynegiannaeth wedi'i hystyried yn iawn sy'n trin moeseg fel adlewyrchiad gosodiadol o anianawd ac agweddau, polisïau a safiadau, pobl – [as] *'the propositional reflection of the dispositions and attitudes, policies and stances, of people'* (Blackburn, 1998, t. 310). Mae Blackburn yn haeru nad oes rhaniad diddorol rhwng gwerthoedd a dymuniadau – [there is] *'no interesting split between values and desires'* (t. 275). Yn lle hynny, mae'n honni bod grisïau o esgyniad ymarferol ac emosiynol o'n teimladau o ffeidd-dod, dicter ac euogrwydd, sy'n dringo o ddewisiadau syml ar gyfer chwaeth ac arogleuon, trwy 'chwaeth esthetig' -*aesthetic taste* gan gynnwys ein teimladau, er enghraifft, ar

gyfer arucheldd diffeithwch, a'n dirmyg tuag at hysbysebwy'r sy'n dymuno taflunio hysbysebion i'r gofod), hyd at achosion o niwed a drygioni lle na chaiff anghydfurfiaeth ei oddef - [*right up to*] *'cases of harm and evil where dissent is not tolerated'* (tpp. 8-14). Mae'n dadlau bod meddylfryd moesegol, cynnwys y cynnig moesegol, ei rym ysgogol, ei awdurdod, a'r cwestiwn a yw anghydfodau sy'n ymwneud â gwerthoedd gwahanol yn anghydfodau gwybyddol neu'n rhywbeth arall i gyd yn cael eu deall yn well trwy fynegiannaeth - *'ethical thought, the content of the ethical proposition, its motivational power, its authority, and the question of whether disputes involving different valuations are cognitive disputes or something else'* [*are all*] *'better understood by expressivism'* (t. 121). Yn wahanol i drafodaethau o chwaeth, fodd bynnag, mae sgysïau moesol yn briodol yn ymwneud â *rhesymau* ac *anghytundebau* (Blackburn, 2001, t. 28).

Reasoning is allowed to assure us of the matters of fact within which our decision is situated. Intelligence is involved in appreciating what is really involved in our goals. Most notably . . . reason does assure us of the adaptation of means to ends. But it can be used to correct our understanding of what it would be like for ourselves or others if our aims were realized. (Blackburn, 1998, t. 262)

Mae mynegiannaeth Blackburn hyd yn oed yn trin safbwyntiau moesol fel *gwirionedd*. Dim ond ein ffordd ni o ystyried, beirniadu, gwrthod neu amddiffyn agweddau moesol yw siarad o'r fath. Ond nid oes angen i hyn awgrymu gwrthrychaeth. Mae Blackburn yn disgrifio'i safbwynt fel lled-realaeth

## Rhai Damcaniaethau Anwybyddol ynghylch Moesoldeb

sy'n gwneud synnwyr o araith o fath realistig o drafodaeth foesol - a *quasi-realism that makes sense of the 'realist-sounding discourse' of moral discussion*.<sup>3</sup>

I allow talk of moral truth . . . I believe that the primary function of talking of 'knowledge' is to indicate that a judgement is beyond revision. That is, we rule out any chance that an improvement might occur, that would properly lead to revision of the judgement . . . I do not say that we can talk as if kicking dogs were wrong, when 'really' it isn't wrong. I say that it is wrong (so it is true that it is wrong, so it is really true that it is wrong, so this is an example of a moral truth, so there are moral truths) . . . All that is claimed, and that is surely uncontroversial, is that we judge oughts because of something that is true: because of the shape of our prescriptions and attitudes and stances, because of our desires, and because of our emotional natures. (Blackburn, 1998, tt. 318-320)

Gan ddadlau nad yw ffenomenau arwynebol damcaniaeth foesol yn cynnig unrhyw rwystrau i'r theori hon o ddamcaniaeth alldaflol moeseg – ('the surface phenomena of moral theory' do not offer any obstacles to this *projective theory of ethics*<sup>4</sup>) – maen nhw yn wir yr hyn y dylem ei ddisgwyl – [*they are*] '*just what we should expect*' (Blackburn, 1993, t. 167) – Mae Blackburn yn caniatáu i ni barhau i siarad am 'wirioneddau moesol' (er nad yw'r rhain yn debyg i wirionedd mewn ffiseg), ac am 'wybodaeth foesol - '*moral truths*' a '*moral knowledge*'. Ar gyfer esbonydd mor soffistigedig, ni ellir dweud nad yw moesoldeb yn *syml* 'ddim yn ffeithiol', 'yn anrhesymol' neu 'yn

oddrychol', gan fod lled-realaeth yn dynwared y meddyliau a'r arferion moesol sydd yn dybiedig yn diffinio realaeth.

There are features of the claim that a moral judgement is true that prevent this being taken as the claim that it corresponds in any way with a state of affairs. It follows that an attribution of truth to such a judgement must involve a different sort of assessment . . . [Yet] it is a complete mistake to think that the notion of moral truth and the associated notions of moral attributes and propositions disappear when the realistic theory is refuted. To think that a moral proposition is true is to concur in an attitude to its subject . . . To think, however, that the anti-realist results show that there is no such thing as moral truth is quite wrong. To think there are no moral truths is to think that nothing should be morally endorsed, that is, to endorse the endorsement of nothing, and this attitude of indifference is one that it would be wrong to recommend, and silly to practise. (Blackburn, 1993, tt. 111, 129)

Mae Blackburn yn cytuno y gallwch bob amser ofyn ynghylch unrhyw deimlad neu awydd a yw'n foesol 'dda' ai peidio, yn union fel y gallwch ofyn ynghylch unrhyw ganfyddiad a yw'n rhith ai peidio, ond mae'n mynnu na allwch wneud hynny ond trwy ddiybennu ar deimladau eraill (gan mai dim ond trwy

<sup>3</sup> *Realaeth foesol*, o'i gyferbynnu, yw'r safbwynt bod dyfarniadau moesol yn seiliedig ar natur pethau, ac felly'n wrthrychol yn gywir neu'n anghywir, yn annibynnol ar ein hymatebion dynol goddrychol ac amrywiol tuag atyn nhw.

<sup>4</sup> *Allandaflaeth* yw'r safbwynt nad yw gwerthoedd yn bod yn y byd gwrthrychol 'allan yno', ond yn ymestyniadau o'n teimladau neu agweddau ni ein hunain ar realiti moesol niwtral.

## Rhai Damcaniaethau Anwybyddol ynghylch Moesoldeb

ddibynnu ar ganfyddiadau eraill y gallwch chi farnu rhithiau). Serch hynny, bydd y beirniaid yn dal i ddadlau sut bynnag y mae'r ddamcaniaeth wedi'i haddurno, yn y pen draw ymddengys ei bod yn gorffwys ar ddim ond agweddau - yn wir. . . yr agweddau sy'n digwydd bod gennym [e.e. ein bod yn anghymeradwyo creulondeb]. Eto rhaid bod hyn yn ffug. Yn sicr byddai creulondeb yn anghywir. . . waeth beth fo ymatebion neu agweddau unrhyw un – *'however the theory is embellished, it ultimately seems to rest on nothing but attitudes – indeed . . . attitudes we merely happen to have [e.g. that we disapprove of cruelty]. Yet this must be false. Surely cruelty would be wrong . . . regardless of anyone's responses or attitudes'*. (D'Arms and Jacobson, 2006, t. 198). Mae hyn yn cyfeirio at y gwahaniaeth rhwng agweddau unigolyn (a'i ddymuniadau a'i emosiynau), ar y naill law, a'i asesiad o *rinwedd* y gwrthrych neu'r sefyllfa y cyfeirir ati neu'r agwedd y cyfeirir ato (ei ddymunoldeb *moesol*), ar y llaw arall (Williams, 1985, t. 125).

Am y rheswm hwn, mae llawer yn cwyno bod angen ychwanegu ymhellach at y cyfrifon hyn o'n hymatebion dynol gyda pheth cyfeiriad at yr hyn *sy'n fwy na* dewisiadau, emosiynau, agweddau neu gyfarwyddbau unigolyn. Ond mae Blackburn yn honni ei fod yn gwneud hyn, gan ddadlau, er mai oherwydd ein hymatebion yr ydym yn *dweud* bod creulondeb yn anghywir - *'it is because of our responses that we say that cruelty is wrong'*, serch hynny yr hyn sy'n gwneud creulondeb yn atgas yw nad yw'n ein tramgwyddo, ond yr holl bethau erchyll sy'n gwneud iddo wneud hynny - *'what makes cruelty abhorrent is not that it offends us, but all those hideous things that make it do so'*: hynny yw, ffeithiau am effeithiau creulondeb - *'facts' about the effects of cruelty* (Blackburn, 1993, t. 172; cf. 1998, tt. 307-308). Yr hyn sy'n ei gwneud yn anghywir i gicio cŵn yw'r creulondeb tuag at yr anifail neu'r boen y mae'n ei ddiodef - *'What makes it wrong to kick dogs is the cruelty or pain to the animal'* (Blackburn, 1984, t. 218).



## Cysylltau

<https://en.wikipedia.org/wiki/Meta-ethics> (Wikipedia on Meta-ethics)

## Pwyntiau trafod

1. Beth yw cryfderau a gwendidau deall hawliadau moesol o ran mynegi (a) emosiynau a (b) agweddau?
2. A yw sefyllfa 'sylwedydd delfrydol' yn amddiffynadwy fel cyfrif o natur barn foesol? Os na ydyw, pam?
3. A yw 'lled-realïaeth' Simon Blackburn yn rhoi amddiffyniad digonol o fynegiannaeth yn erbyn y ddadl bod rhaid i farnau moesol fod yn hawliadau gwybyddol ynghylch yr hyn sy'n 'wir' a 'real'?

## Cyfeiriadaeth

- Ayer, A.J. (1936). *Language, truth and logic*. London: Gollancz.
- Benn, P. (1998). *Ethics*. London: Routledge.
- Blackburn, S. (1984). *Spreading the word: Groundings in the philosophy of language*. Oxford: Clarendon Press.
- Blackburn, S. (1993). *Essays in quasi-realism*. New York: Oxford University Press.
- Blackburn, S. (1998). *Ruling passions: A theory of practical reasoning*. Oxford: Oxford University Press.
- Blackburn, S. (2001). *Being good: An introduction to ethics*. Oxford: Oxford University Press.
- Blackburn, S. (2006). Antirealist expressivism and quasi-realism. In *The Oxford handbook of ethical theory* (pp. 146-162). Ed. D. Copp, New York: Oxford University Press.
- D'Arms, J. and Jacobson, D. (2006). Sensibility theory and projectivism. In *The Oxford handbook of ethical theory* (pp. 186-218). Ed. D. Copp, New York: Oxford University Press.
- Gensler, H.J. (1998). *Ethics: A contemporary introduction*, London: Routledge.
- Gibbard, A. (1990). *Wise choices, apt feelings: A theory of normative judgment*. Oxford: Clarendon Press
- Hare, R.M. (1952). *The language of morals*. Oxford: Oxford University Press.
- Hare, R.M. (1963). *Freedom and reason*. Oxford: Oxford University Press.
- Price, H.H. (1969). *Belief*. London: George Allen & Unwin.
- Rachels, J. (1993). Subjectivism. In *A Companion to Ethics* (pp. 432-441). Ed. P. Singer, Oxford: Blackwell.
- Rachels, J. (1999). *The elements of moral philosophy*. Singapore: McGraw-Hill.
- Stevenson (1944). *Ethics and language*. New Haven, Connecticut: Yale University Press.
- Urmson, J.O. (1968). *The emotive theory of ethics*. London: Hutchinson.
- Williams, B. (1985). *Ethics and the limits of philosophy*. London: Collins.

*Ar hyn o bryd, y Parchedig Athro Jeff Astley yw Athro Alister Hardy y Profiad Crefyddol ac Ysbrydol ym Mhrifysgol Warwick. Mae'n Athro er anrhydedd ym Mhrifysgol Durham a. Phrifysgol Sant Ioan Efrog. Ef yw awdur Choosing Life: Christianity and Moral Problems (Darton, Longman & Todd, 2000).*

## Profiad Crefyddol trwy Gelf

Daniel Moulin-Stożek

*Mae'r erthygl hon yn cyflwyno ac yn archwilio profiad crefyddol trwy'r enghraifft o gerflun Bernini, The Ecstasy of St Teresa.*

*Cyswllt manyleb:*

*WJEC/CBAC/EDUQAS: Uned 2, Adran B, Thema 4: Natur a dylanwad profiad crefyddol.*

*AQA: Efen 1, Adran A: Profiad crefyddol.*

*EDEXCEL: AREA B, Adran 4: Profiad crefyddol.*

*OCR: Uned 2, Adran 3: Duw a'r byd, natur a dylanwad profiad crefyddol.*

### **Tarddiad celf fel profiad crefyddol**

Beth yw celf? Pam mae pobl yn ei lunio? Pam mynd i oriel gelf? Mae'r cwestiynau hyn yn syml, ond nid yn hawdd eu hateb. Fel un o'r haneswyr celf mwyaf poblogaidd erioed, mae E. H. Gombrich (2006), yn nodi nad oedd y rhan fwyaf o bethau a welir mewn amgueddfeydd wedi eu llunio i gael eu rhoi yno. Argymhellir llyfr Gombrich am sawl rheswm, ond yma rwy'n crynhoi rhai pwyntiau allweddol sy'n berthnasol i astudio crefydd. Mae Gombrich yn esbonio bod swyddogaeth eithaf gwahanol i wrthrychau celf yn eu cyd-destunau gwreiddiol, ac roedd hyn yn fwyaf aml o natur grefyddol neu ddefodol. Datblygodd celf yn y traddodiad gorllewinol o'r addurniadau angladdol a

ddefnyddiwyd gan yr hen Eifftiaid.

Parhaodd yr arferion hyn drwy wareiddiadau Groeg a Rhufain, gan arwain at amryw ddatblygiadau yn y cyfnod canoloesol a chyfnod y Dadeni, ac yn y pen draw esblygu i fod y math o gelfyddyd yr ydym ni'n gyfarwydd ag ef yn ein dyddiau ni heddiw.

Mae'r hanes hwn yn dangos ar unwaith arwyddocâd crefyddol celf. Prif bwrpas celf yr Eifftiaid hynafol oedd darparu cofnod ar gyfer y bywyd ar ôl marwolaeth, ac felly diogelu prif nodweddion y rhai a gomisiynodd y bedd. Y syniad sy'n ymwneud â chelfyddyd, dadleua Gombrich, yw bod delweddau yn diogelu rhywfaint o rym yr hyn y maen nhw'n ei efelychu. Mae perchennog y ddelwedd yn dal gafael neu'n allanoli rhywbeth o'r grym

## Profiad Crefyddol trwy Gelf

bywyd go iawn hwnnw trwy ddelwedd symbolaidd, trwy olwg, neu gyffyrddiad. Gallwn weld yr egwyddor hon yn y paentiadau ogof cynharaf, yn y cyfnod clasurol, ac yn y defnydd cyfoes o ddelweddau a dyluniadau mewn gwahanol gyd-destunau.

### **Gwahaniaethau ynghylch darlunio delweddau sanctaidd**

Mae hanes o wrthdaro mewn Cristnogaeth yn yr achos o greu delweddau o Dduw. Tra bod Islam ac Iddewiaeth yn ystyried ymdrechion i gynrychioli Duw fel eilunaddoliaeth (addoli'r hyn sydd ddim yn Dduw), yn gyffredinol, mae'r traddodiad Cristnogol yn derbyn celf fel ffordd o ddal a chynrychioli presenoldeb Duw. Fe wnaeth y traddodiad Cristnogol fenthycu symbolau o'r gwareiddiadau hynafol er mwyn gwneud hyn. Un enghraifft dda o hyn yw'r eurgylch a welwn ar luniau o seintiau Cristnogol - a ddaeth yn wreiddiol o ddisg haul Ra, Duw haul yr Eifftiaid. Dylid nodi bod symudiad cryf o eiconoclastiaeth o fewn Eglwys Uniongred y Dwyrain yn yr Ymerodraeth Fysantaidd yn yr wythfed a'r nawfed ganrif pan oedd awdurdodau crefyddol ac ymerodrol yn dymuno dinistrio'r defnydd o eiconau ar sail ddiwinyddol, ac mae'r rhan fwyaf o enwadau Protestannaidd heddiw yn tueddu i osgoi cerfluniau a phaentiadau defosiynol mewn mannau addoli lle rhoddir y pwyslais yn bennaf ar air ysgrifenedig Duw.

Mae rhai pobl yn credu bod y paentiadau ogof cyntaf a'r strwythurau cynharaf i gael eu codi gan fodau dynol - fel cylchoedd cerrig Côr y Cewri, er enghraifft - wedi'u cynllunio i ennyn profiad crefyddol, a'i fynegi. Yr oedd Rudolf Otto (1923 [1917]), a oedd yn enwog am ddatblygu'r farn bod categori cyffredinol o brofiad dynol o'r sanctaidd

yn bodoli, y *nwmnaidd*, yn credu mai celf oedd un o'r ffyrdd gorau o ddangos y sanctaidd. Mae pensaernïaeth yn creu lle ar gyfer profiad nwmnaidd, a gellir dod o hyd i adeiladau ysbrydoledig ym mhob diwylliant yn y gorffennol a'r presennol, yn y Dwyrain a'r Gorllewin. Pa un a ydyn ni'n cytuno ai peidio ag Otto a'i ragflaenydd, William James a oedd yn arloeswr cynnar ym myd seicoleg, bod profiad crefyddol mewn rhyw fodd yn gyffredin i bob bod dynol, gall archwiliad manwl o wrthrychau celf fod yn allwedd ddefnyddiol i archwilio profiad crefyddol mewn cyd-destunau a thraddodiadau penodol. Gellir canfod gwahaniaethau diwinyddol yng ngwahanol arddulliau gwrthrychau materol, pensaernïaeth a chelf.

### **Yr arddull Baróc a phrofiad cyfriniol**

Mae'r term 'Baróc' yn deillio o ddisgrifiad am fath o berl ffansiōl. Fe'i defnyddiwyd ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg i gyfeirio at arddull o gelf sy'n cynrychioli emosiwn crefyddol trwy ddelweddau afrad a moethus. Ymddangosodd y cyfnod Baróc, cyfnod a oedd yn pontio'r ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif, yn yr Ewrop Gatholig mewn ymateb i'r Diwygiad Protestannaidd a oedd wedi pwysleisio symlrwydd a rheswm mewn crefydd. Roedd profiad crefyddol yn thema bwysig mewn gwaith celf yn yr arddull hwn, o ystyried dymuniad yr Eglwys Gatholig i wrthsefyll y Diwygiad Protestannaidd trwy bwysleisio agweddau emosiynol a phrofiadol Cristnogaeth. Yn yr Ewrop Brotestannaidd, tynnodd y diwygwyr ddelweddau crefyddol a chreiriau o eglwysi. Mewn ardaloedd Catholig, fodd bynnag, fel yn yr Eidal lle y dechreuodd yr arddull Baróc, daeth eglwysi yn fwy addurnedig a helaeth nag erioed o'r blaen.

## Profiad Crefyddol trwy Gelf

Enghraifft eithriadol o gelf Baróc yw gwaith y cerflunydd Bernini, *The Ecstasy of Saint Teresa* (1645-52). (Er mwyn gweld delwedd o'r gwaith, dilynwch y cysylltau a roddir isod.) Fel llawer o gampweithiau celf y Gorllewin, comisiynwyd y cerflun hwn a'i greu i ysbrydoli addolwyr mewn eglwys, yn yr achos hwn, eglwys Santa Maria della Vittoria yn Rhufain. Mae'n dangos y lleian a'r awdures Sbaenaidd, Santes Teresa o Avila (1515-1582) mewn perlewyr wrth ddod i gysylltiad ag angel.

Roedd Teresa yn gyfriniwr. Adroddodd bod ganddi adnabyddiaeth bersonol o Dduw, a gafodd o ganlyniad i'w phrofiadau crefyddol, gan gynnwys gweledigaethau mewnol o ddelweddau, lleisiau, ecstasïau a pherlewygon, y bu'n ceisio'u cyfathrebu i eraill wedyn. Adroddodd am ei phrofiad o rywbeth diriaethol 'arall' ar wahân iddi hi ei hun - gan ddangos bod dimensiwn arall i realiti na'r hyn a brofir fel arfer gan fodau dynol, sef Duw.

Mae ysgolheigion ambell dro wedi gwahaniaethu cyfriniaeth 'theistig', 'ddefosiynol' neu 'ddeuolistaidd' o'r fath, sy'n ceisio cymundeb â Duw ond nid hunaniaeth â Duw, ac yn ei ystyried fel *cyfathrebu* â phresenoldeb cariadus llethol; o 'gyfriniaeth fonistig' neu 'gyfriniaeth gyfunol' ('*monistic mysticism*' or '*unitive mysticism*') sy'n arwain at ymdeimlad o *ddod yn un* â'r bydysawd cyfan neu â realiti absoliwt amheronol trosgynnol (*transcendent, impersonal absolute reality*) (e.e. Brahman). Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth hwn wedi cael ei feirniadu fel un sy'n or-syml, ac fe'i gwadir gan rai fel Walter Stace sy'n dadlau mai cyfriniaeth theistig yw'r un profiad â'r un a ddisgrifir fel cyfriniaeth fonistig, yr unig wahaniaeth yw un o ddehongliad - ei fod yn cael ei 'ddehongli'n theistig fel gwelediad o

Dduw' - '*interpreted theistically as a seeing of God*' (Stace, 1961, t. 94).

Yn chwilfrydig, disgrifiodd Teresa (fel rhai cyfrinwyr eraill) gyflwr pennaf yr undod cyfriniol, lle'r oedd y cyfriniwr - wedi marw i'w hunan - yn byw yn y dwyfol, a thrwyddo, fel *priodas ysbrydol*: hyd yn oed gan ddefnyddio symbolau o'r glaw yn cwmpo i afon, neu afon yn llifo i'r môr, i ddarlunio'r cyflwr hwn. Fodd bynnag, ni wnaeth Teresa ei hun annog nac ymgymryd â dadansoddiad metaffisegol o'i phrofiadau, ac mae un ysgolhaig yn haeru, er ei bod hi wedi profi'r ddau fath o ymwybyddiaeth gyfriniol, ei bod hi'n gwerthfawrogi'n fwy undod theistig o berthynas, nid profiad o amsugno lle nad oes gwahaniaethu yn parhau ' [*she 'value[d] more highly a theistic union of relation, not an experience of absorption where no differentiation remains*' (Green, 1983, t. 235).

Mae Gombrich yn teimlo y gall cerflun emosiynol a synhwyrus Bernini fod ychydig yn ormodol i arsylwyr o'r Gogledd Protestannaidd. Yn wir, mae hanes dadleuol yn perthyn i'r cerflun. Caiff y beirniaid eu rhannu ynghylch a'i bwriad y cerflun yw bod ychydig yn erotig o ran natur. Mae Teresa'n llewygu, yn syrthio yn ôl, a chyda pelydrau aur yn disgyn oddi fry, mae angel adeiniog mewn ystum yn barod i'w thrywanu â phicell. Eto, mae'r gwrthrych hwn yn dangos yn ffyddlon y disgrifiad corfforol a roddwyd gan y Santes yn ei hunangofiant, *The Life of Saint Teresa of Avila* (a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1562). Mae hwn yn waith llenyddol enwog, unwaith eto yn gynnyrch y Gwrthddiwygiad Catholig, sy'n pwysleisio pwysigrwydd emosiwn a phrofiad crefyddol trwy ei ddisgrifiadau angerddol. Yn y bennod a ddarlunnir gan Bernini, mae Teresa'n disgrifio ei gweledigaeth o

## Profiad Crefyddol trwy Gelf

angel, a oedd, er ei fod wedi'i roi'n fanwl, ag iddi - mewn rhyw fodd - ansawdd anhraethadwy, ond eto'n gorfforol:

*In his [the angel's] hands I saw a great golden spear, and at the iron tip there appeared to be a point of fire. This he plunged into my heart several times so that it penetrated my entrails [stomach]. When he pulled it out, I felt that he took them with it, and left me utterly consumed by the great love of God. (St Teresa of Avila, 1957 [1562]), t. 210)*

### **Ecstasi'r Santes Teresa fel enghraifft o brofiad crefyddol**

Yn ei destun clasurol, *The varieties of religious experience* (1960, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1902), defnyddiodd William James, enghreifftiau dogfennol o brofiadau crefyddol fel ffordd o ddechrau deall y meddwl dynol. Roedd testunau fel hunangofiant y Santes Teresa yn rhoi'r data ar gyfer gwneud hyn. Er nad yw James yn diystyru'r posibilrwydd bod profiadau crefyddol neilltuoel yn ddilys, roedd ganddo ddiddordeb mewn darganfod sut y gallai profiadau crefyddol penodol gynrychioli prosesau seicolegol cyffredinol sy'n gyffredin i bob bod dynol ac felly sydd i'w eu canfod ym mhob crefydd (dylid nodi, fodd bynnag, bod James yn tynnu ei enghreifftiau yn bennaf o'r traddodiad Cristnogol). Yn ôl dadansoddiadau James o enghreifftiau enwog sydd wedi'u dogfennu'n dda, mae pedair nodwedd nodweddiadol yn perthyn i brofiadau cyfriniol (tt. 367-368). Mae'r rhai sy'n cael y profiad yn teimlo eu bod yng ngrym Duw neu ryw Absoliwt, a heb reolaeth (goddefoldeb). Mae'r profiad mewn ffordd yn anhrosglwyddadwy ac ni ellir ei esbonio ddim ond trwy gyfrwng trosiadau a symbolau (yn anhraethadwy), ac yn fyrhoedlog (darfodedig). Ond efallai yn bwysicaf oll, mae profiadau

crefyddol nid yn unig y tu allan i'r cyffredin, maen nhw hefyd yn cyfeirio at wirioneddau (deallusol) arwyddocaol mwy, na ellir eu hennill mewn manau eraill.

Mae cerflun Bernini yn dangos categorïau James yn berffaith. Nid ydym yn gweld yr ymysgaroedd yn cael eu tynnu allan, am mai dim ond trosiad yw hynny i ddisgrifio dwysedd profiad Teresa. Mae plygiadau crychiog y defnydd - un nodwedd o ffasiwn ffrils goludog arddull Baróc - yn dal symudiad manwl gywir moment mewn amser. Ond gweledigaeth ddarfodedig yw hon, yn ymddangos ar gwmwl, wedi'i hatal dros dro yn y gofod, a bydd yn diflannu'n fuan. Mae, er hynny, wedi ei gerfio mewn carreg, yn gyffyrddadwy ac yn real, yn gipolwg o rywbeth arall. Mae Teresa ar drugaredd yr angel ac mae'n cwmpo, yn ddi-rym i dorri ar draws cwrs y digwyddiad. Gan hynny, Wedi'i swyno felly, mae'r weledigaeth yn awgrymu datguddiad o wybodaeth sydd yn arallfydol – y gallai dim ond sant dystio iddi.

Roedd Teresa yn pryderu na fyddai neb yn credu yn ei phrofiadau dwys a phersonol, ac ar adegau roedd hi ei hunan yn amau a allai hi fod wedi cael profiadau crefyddol gwirioneddol. Eto i gyd, roedd ei hysgrifiadau wedi dal nid yn unig ddychymyg Bernini, un o'r artistiaid mwyaf, a James, un o arloeswyr astudiaeth wyddonol crefydd, ond hefyd nifer o ddarllenwyr ymroddgar. Gyda'r Santes Teresa fel enghraifft, gallwn felly weld rhai o effeithiau amrywiol profiad crefyddol. Er eu bod yn aml yn cael eu herio a'u hamau, gallant ysgogi nid yn unig gred grefyddol, ond hefyd newid diwylliannol ehangach.

## Profiad Crefyddol trwy Gelf

### Geirfa

*Anhraethadwy (Ineffability)*: methu â disgrifio rhywbeth mewn geiriau.

*Cyfriniwr (Mystic)*: rhywun sy'n honni profiad uniongyrchol o Dduw / yr Absoliwt.

*Deallusol (Noetic)*: yn gysylltiedig â'r meddwl, cyflyrau o fewnwelediad a gwybodaeth.

*Nwmnaidd (Numinous)*: y profiad o'r Darfodedig sanctaidd: byrhoedlog.

*Goddefedd (Passivity)*: heb reolaeth.

*Darfodedig (Transient)*: byrhoedlog.

### Cysylltau

Gellir cael mynediad yn rhydd at y ddelwedd o *The Ecstasy of Saint Theresa* trwy nifer o wyddoniaduron celf ar-lein, fel *Artble*  
[https://www.artble.com/artists/gian\\_lorenzo\\_bernini/sculpture/the\\_ecstasy\\_of\\_saint\\_theresa](https://www.artble.com/artists/gian_lorenzo_bernini/sculpture/the_ecstasy_of_saint_theresa)

Gellir dod o hyd i gyfieithiad o hanes *Santa Teresa De Avila* yma  
[https://archive.org/stream/SantaTeresaDeAvilaWorksComplete/SaintTeresaOfAvilaCollectedWorksComplete\\_djvu.txt](https://archive.org/stream/SantaTeresaDeAvilaWorksComplete/SaintTeresaOfAvilaCollectedWorksComplete_djvu.txt)

### Pwyntiau trafod

1. Beth, yn eich barn chi, sy'n gwneud darn o gelf, yn gelf?
2. Pa broblemau y gallai artistiaid eu cael wrth ddarlunio celf yn ymwneud â Duw?
3. A yw'r holl waith celf da yn cynrychioli neu'n ceisio creu profiad crefyddol? Pa enghreifftiau a gwrth

enghreifftiau sydd ar gael i gefnogi'ch dadl?

4. A yw Otto yn gywir wrth feddwl bod pob pensaerniaeth grefyddol yn hyrwyddo'r un synnwyr nwmen

### Cyfeiriadau

Gombrich, E.H. (2006). *The story of art* (16<sup>th</sup> edition). London: Phaidon.

Green, D. (1983). *A study of mysticism and its forms of expression*. PhD thesis, University of Stirling.

James, W. (1960 [1902]). *The varieties of religious experience*. London: Fontana.

Otto, R. (1923 [1917]). *The idea of the holy*. Translated by J.W. Harvey. Oxford: Oxford University Press.

Stace, W.T. (1961). *Mysticism and philosophy*. London: Macmillan.

Teresa of Avila. (1957 [1562]). *The life of the holy mother Teresa*. Translated by J.M. Cohen. London: Penguin.

*Mae Daniel Moulin-Stożek DPhil (Oxon) yn ymchwilydd ac yn awdur sy'n canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â chrefydd, addysg a chymdeithas. Mae'n Gymrawd Cysylltiol yn Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Canolfan Astudiaethau Addysg, Prifysgol Warwick. Cyhoeddir ei gyflwyniad i feddwl addysgol Tolstoy yn y gyfrol Leo Tolstoy (Llundain: Bloomsbury, 2014).*